Ein Byd Naturiol – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

CYNNWYS

Talfyriadau 4
Rhagair 5

Pennod 1

CYD-DESTUN Y CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL HWN 6
Uwch Gynhadledd y Ddaear 1992 6
Cyfarwyddeb Cynefinoedd y GE 6
Gweithredu dros Bioamrywiaeth yn y DG 6
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 7
Aelodau Gr@p Llywio CGBLl 7
Aelodau Gr@p Ymgynhorol Rheoli Tir Parc Amcanion CGBLl PCBB 7

Pennod 2

FFRAMWAITH CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG 9
Agenda Leol 21, strategaethau cymunedol a bioamrywiaeth 9
Mesur cynaladwyedd 10
Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 10
Cynllun Datblygu Unedol 10
Newid yn yr hinsawdd 10
Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth rhanbarthol a lleol awdurdodau unedol eraill 10
Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd 11
Safleoedd bywyd gwyllt 11
Cynlluniau amaeth-amgylchedd 11
Busnes a bioamrywiaeth 11
Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn gwahodd cwmniau ac unigolion i ystyried eu hymrwymiad i warchod bioamrywiaeth 12
Siarter bioamrywiaeth 12
Gwerth Gorau a bioamrywiaeth 12

Pennod 3

MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN 13
Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd (CGC) a Chynlluniau Gweithredu Rhywogaethau (CGRh) 13
Addysg ac Ymwybyddiaeth Arolwg y CGBLl 13
Archwiliad a Gwerthusiad o Gynefinoedd a Rhywogaethau 13

Archwiliad o gynefinoedd a rhywogaethau **13**
Y broses archwilio **13**
Arolwg data **13**

Ymgynghoriad a chofnodwyr bywyd gwyllt **13**
Arolwg o'r archwiliad **14**
Gwerthuso cynefinoedd
14
Gwerthuso rhywogaethau **14**
Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu **15**
Cynefinoedd **15**
Rhywogaethau **15**

Pennod 4

CYNLLUNIAU GWEITHREDU A'R DULL O'U GWEITHREDU **16**
Costau Cynlluniau Gweithredu
16
Dod o hyd i adnoddau **17**
Cynlluniau ariannu **17**
Cyllid strwythurol Ewropeaidd **17**
Cefnogaeth i fusnes a chyllid preifat **17**
Datblygu eich prosiectau eich hun **17**

Pennod 5

CAMAU GWEITHREDU CYFFREDINOL A THARGEDAU **18**
Camau gweithredu a thargedau sy'n gyffredin i'r holl gynlluniau
18
gweithredu rhywogaethau a chynefinoedd a datganiadau rhywogaethau

Yr Atodiadau **22**

Atodiad 1
Yr Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc
23
Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Atodiad 2
Yr Archwiliad Rhywogaethau ar gyfer CGBLl **25**
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Atodiad 2a
Cynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth **39**
iddynt sy'n bwysig i rywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt

Atodiad 2b
Rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt **40**
sy'n gysylltiedig â chynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt

Atodiad 3
Cynllun Gwaith yr Asiantaeth **43**

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer y GGB (BIS) **44**
Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer PCBB
45
Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer CCGC
50

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer AA **55**
Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer CC, MC
56
Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau
58
ar gyfer Gr@p Llywio CGBLl
Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau
59
ar gyfer cyrff eraill a grwpiau nad ydynt y o fewn Gr@p Llywio CGBLl
Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau
60
ar gyfer yr Ymddiriedolaethau Bwyd Gwyllt

Atodiad 4
“59 o gamau” o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
63

Atodiad 5
Enghraifft o Gynllun Gweithredu – Sut y gallech ei ddefnyddio
65

Ffigurau a Thablau

Ffigur 1
7
Camau sy’n angenrheidiol i gynhyrchu a gweithredu
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Ffigur 2 **9**
Fframwaith ar gyfer CGBLl PCBB

Tabl 2.1 **11**
Cynlluniau cymorth grant ar gyfer rheoli tir amgylcheddol

Tabl 3.1
Meini prawf a systemau sgorio ar gyfer gwerthuso cynefinoedd
14

Tabl 3.2
Rhaglen o gynhyrchu CGC a CGRh **15**

Tabl 4.1
Costau arwyddol ar gyfer gweithredu camau gweithredu fel **16**
y rhestrwyd hynny yn y CGC a’r CGRh

Y Camau Gweithredu Cyffredinol a Thargedau
19
ar gyfer Asiantaethau Arweiniol

TALFYRIADAU

GCD	Gweithredu ar gyfer Cadwraeth Drwy Dwristiaeth
CPCAAA	Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored
CRhA	Cynllun Rheoli Ardal
GIBH	Gwarchod Ieir Bach yr Haf
PCBB	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
GYPLIB	Gweithgor Ystlumod Pedol Lleiaf Brycheiniog
YBGB	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CTG	Cymdeithas Tirfeddianwyr Gwledig
DC/WW	D@r Cymru/Welsh Water
AA	Asiantaeth yr Amgylchedd
CC	Comisiwn Coedwigaeth
MC	Menter Coedwigaeth
UCA	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
CGC	Cynllun Gweithredu Cynefinoedd
AL21	Agenda Leol 21
CLIAA	Cynllun Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd
CGBLl	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
AACCC	Adran Amaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru
UAC	Undeb Amaethwyr Cymru
APC	Awdurdod y Parc Cenedlaethol
CRhPC	Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
YG	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
HDC	Hen Dywodfaen Coch
PDA	Prosiect Dyfrgwn ac Afonydd
CMGP	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
PDCLIA	Prosiect ar gyfer Deall Cynaladwyedd Lleol drwy Addysg
GFGA	Y Gymdeithas Frenhinol Er Gwarchod Adar
CGRh	Cynllun Gweithredu Rhywogaethau
YC	Yr Ymddiriedolaeth Coedlannau
AU	Awdurdod Unedol
CDU	Cynllun Datblygu Unedol
YBGV	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent
PSBG	Prosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt
BCC	Bwrdd Croeso Cymru
YGB	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt

RHAGAIR

Pwrpas y Cynllun Gweithredu hwn

Gwahoddiad

Prif amcan "Ein Byd Naturiol – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog" (y cyfeirir ato ar ôl hyn fel y CGBLl) yw sicrhau defnydd cynaladwy o adnoddau naturiol o fewn y Parc Cenedlaethol. Drwy'r agwedd hon, byddwn yn pwysleisio swyddogaeth hanfodol tirfeddianwyr a chymunedau lleol i reoli eu hamgylchedd naturiol mewn dull cynaladwy. Swyddogaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y broses hon fydd cynorthwyo grwpiau lleol ac unigolion i ddatblygu a gweithredu prosiectau a chynlluniau sy'n cynnwys targedau'r CGBLl. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys darparu cymorth ymarferol a thechnegol, gosod targedau lleol ac arddangos manteision economaidd a chymdeithasol ychwanegol prosiectau, cynhyrchion a chynlluniau sy'n dibynnu ar ddefnydd cynaladwy o adnoddau naturiol.

Ar gyfer y partneriaid a gynrychiolir yn y Gr@p Llywio CGBLl hyd yma (gweler **tudalen 7**), mae ar un cam gweithredu cyffredinol (gweler **Pennod 5**) angen i bob partner egluro ei rôl yn ystod gweithredu'r cynllun. Mae Cynllun Gwaith Asiantaeth (gweler **Atodiad 3**) hefyd yn coladu'r camau gweithredu ym mhob cynllun gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau yn erbyn yr amrywiol bartneriaid, fel arwydd o lefel yr ymrwymiad sy'n angenrheidiol. Mae Gr@p Llywio CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwahodd y cyrff hyn i ddefnyddio'r cynllun hwn fel eu prif bwynt cyfeirio wrth ddatblygu meysydd gwaith cydweithredol, newydd o fewn y Parc.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn eich gwahodd chi, fel pobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ystyried pa rôl y dymunech ei datblygu yn lleol, naill ai ar eich tir eich hun neu fel rhan o gr@p lleol sy'n datblygu prosiect lleol yn eich ardal neu ymhellach i ffwrdd.

Canllaw ymarferol

Mae perygl yn absenoldeb strategaeth cadwraeth natur lawn ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y bydd y CGBLl yn cael ei ystyried fel strategaeth gwarchod natur y Parc. Nid yw'r CGBLl yn strategaeth gwarchod natur, nid yw'n cynnwys polisïau nac yn dyrannu staff, tir nac adnoddau eraill. Oherwydd hynny, nid yw'n cael effaith uniongyrchol ar y broses gynllunio leol. Yn hytrach mae'n gosod targedau i warchod cynefinoedd a rhywogaethau arbennig. Ymhellach, mae gwarchod bioamrywiaeth yn ein gorfodi i feddwl yn fwy radical ac yn fwy holistig nag a wnaed yn draddodiadol, wrth ganolbwyntio ar bynciau unigol mewn gwarchod natur. Mae'n rhaid i gyrff benderfynu sut i gwrdd â'r ymrwymiadau a gynrychiolir gan y targedau yn y cynllun. Os cyflawnir y targedau hyn a thargedau olynol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau eraill, gall hyn fod yn arwydd da fod y defnydd o adnoddau naturiol o fewn y Parc Cenedlaethol yn dod yn fwy cynaladwy. Mae defnydd cynaladwy o adnoddau naturiol yn fater ehangach na dim ond gwarchod natur; mae'n fater sy'n croesi ar draws ffiniau gwahanol bynciau sy'n effeithio ar yr holl weithgareddau o fewn awdurdod lleol neu APC. Felly bydd y CGBLl yn cynnig arweiniad i aelodau gr@p llywio'r CGBLl a'r cyhoedd yngl~n â datblygu prosiectau, cynllunio rheolaeth ardaloedd ac amrediad o faterion y mae'n hanfodol eu cyfuno er mwyn gwneud y gwaith o weithredu'r cynllun yn broses ystyrlon.

Er nad oes gan y CGBLl effaith uniongyrchol ar y broses gynllunio leol, o dan ddeddfwriaeth newydd, (Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i'r pwrpas o warchod bioamrywiaeth biolegol yn unol â Chytundeb 1992 ar Amrywiaeth Biolegol. Felly er mwyn i'r CGBLl gael ei weithredu, bydd yn rhaid i APCBB fod â phrosesau yn eu lle i gyflawni hyn. Cyhoeddir arweiniad newydd gan Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru (ALGE Cymru) i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu'r polisïau angenrheidiol a gosod y safonau angenrheidiol yn unol â Gwerth Gorau.

Argaeledd y cynlluniau gweithredu

Mae **Tabl 3.2** yn rhestru'r cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny y cynhyrchwyd cynlluniau gweithredu ar eu cyfer hyd yma. Nid ydynt yn cael eu cyhoeddi gyda'r gyfrol hon oherwydd gyda'i gilydd byddai'r cynllun gweithredu yn drwsgl iawn ac efallai yn ormod i bobl sy'n newydd i'r broses. Os, ar ôl gweld **Tabl 3.2** y dymunwch gael copïau o unrhyw rai o'r cynlluniau, bydd y rhain ar gael mewn unrhyw rai o'r llyfrgelloedd o fewn PCBB, o unrhyw un o gyrff y Gr@p Llywio (gweler **tudalen 7**) neu yn cael eu cadw gan unrhyw rai o aelodau Gr@p Ymgynghorol Rheoli Tir PCBB (a restrir hefyd ar **dudalen 7**). Ymhellach, pe bai'n well gennych, gallwch gysylltu â PhCBB i gael copïau yn uniongyrchol neu eu gweld ar ein gwefan.

Gellir cysylltu ag Ecolegydd y Parc ar y ffôn ar 01874 6244437
neu drwy e-bost: paul.sinnadurai@breconbeacons.org

gwefan www.breconbeacons.org

cyfeiriad: 7 Glamorgan Street, Aberhonddu, Powys,
LD3 7DP.

CYFROL 2: "Ein Byd Naturiol – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog"

Mae cyfres "Ein Byd Naturiol" yn egluro cefndir gwarchod bioamrywiaeth mewn cyd-destun rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.
*Mae **Cyfrol 1** yn rhoi gorolwg o'r hyn y mae gwarchod bioamrywiaeth yn ei olygu a beth ydyw o fewn y Parc Cenedlaethol.*
*Mae **Cyfrol 2** yn egluro'r prosesau yr aethpwyd drwyddynt i ddatblygu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl), y materion o bwys a cynlluniau y mae'n rhaid iddo ddylanwadu arnynt er mwyn bod yn effeithiol a sut y dylid ei ddefnyddio; dyma asgwrn cefn technegol i'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.*
*Mae **Cyfrol 3** yn casglu'r cynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau a baratowyd hyd yma ac y gwneir diwygiadau iddynt o bryd i'w gilydd ac yr ychwanegir cynlluniau newydd atynt yn dilyn adolygiadau penodol.*

Pennod 1

CYD-DESTUN Y CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL HWN

Uwch Gynhadledd y Ddaear 1992
Arweiniodd pryder rhyngwladol am ddiraddiad cynyddol yr amgylchedd byd-eang at gyfarfod hanesyddol o lywodraethau o bob rhan o'r byd ym 1992. Adwaenir y cyfarfod hwn yn gyffredin fel Uwch Gynhadledd y Ddaear Rio. Yn yr uwch gynhadledd cytunwyd bod angen gweithredu ar lefel fyd-eang i ymdrin â rhai o'r problemau amgylcheddol a datblygiadol mwyaf difrifol a nodwyd y meysydd allweddol canlynol i weithredu yn eu cylch:

- datblygiad cynaladwy byd-eang
- cwtogi ar nwyon t~ gwydr
- rheolaeth gynaladwy ar goedwigoedd y byd a gwarchod bioamrywiaeth byd-eang.

Y ddogfen allweddol i ymddangos o Uwch Gynhadledd y Ddaear oedd y Cytundeb Rhyngwladol ar Ddatblygiad Cynaladwy a roddodd fanylion am raglen o weithredu ar gyfer datblygu i mewn i'r unfed ganrif ar hugain o dan y teitl 'Agenda 21'. Ffurfiodd y Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol ran o'r cytundeb hwn ac fe'i harwyddwyd gan dros 150 o arweinwyr a llywodraethau'r byd. Cydnabu'r Cytundeb fod bioamrywiaeth pob cenedl yn cyfrannu at bioamrywiaeth byd-eang a bod yn rhaid i bob gwlad chwarae rhan yn y gwaith o warchod adnoddau biolegol ar y raddfa leol, cenedlaethol a byd-eang.

Cyfarwyddeb Cynefinoedd y GE
Amcana Cyfarwyddeb Cynefinoedd y GE 1992 at "gyfrannu tuag at sicrhau bioamrywiaeth drwy warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt yn nhiriogaeth Ewropeaidd y Gwladwriaethau sy'n Aelodau y mae'r cytundeb yn berthnasol ar eu cyfer". Mae'n pwysleisio'r angen am fesurau i gynnal neu adfer rhai cynefinoedd a rhywogaethau "i statws cadwraeth ffafriol" drwy gyfrwng rhwydwaith o safleoedd (Natura 2000) wedi eu dynodi ar gyfer y pwrpas hwn. Cyfeiria hefyd at yr angen i "roi ystyriaeth i ofynion cymdeithasol a diwylliannol a nodweddion rhanbarthol a lleol".

Nodir y safleoedd hyn, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n gyfrifol am eu gwarchod wedi iddynt gael eu dynodi. Ceir proses ddeddfwriaethol ryngwladol gref felly i nodi ardaloedd ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau ac mae hyn yn ei dro yn cael effeithiau ar faterion eraill yn ymwneud â defnydd tir. Cyflwyna'r Gyfarwyddeb brosesau ar gyfer adolygu a newid neu atal gweithgareddau sy'n effeithio'n niweidiol ar ddiddordeb arbennig y safleoedd hyn. Mae hefyd yn cyflwyno gofynion ar gyfer gwarchod nodweddion tirlun ac ardaloedd sydd o bwysigrwydd arbennig i fflora a ffawna yn y cefn gwlad ehangach.

Caiff y Gyfarwyddeb ei throsi i ddeddf y DG gan Reoliadau Cynefinoedd 1994, sy'n dibynnu i raddau helaeth ar ddeddfwriaeth bresennol y DG, cynllunio ar gyfer y dyfodol a phrosesau rheoleiddio eraill. Golyga'r rheoliadau hyn, ynghyd â dyletswydd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i warchod bioamrywiaeth, ac Adolygiadau Gwasanaeth Gwerth Gorau, bod gorchmynion cryf i sicrhau bod gweithredu CGBLl yn cael ei hwyluso a'i yrru yn ei flaen gan bawb y bo hyn yn ymwneud â hwy.

Gweithredu dros Bioamrywiaeth yn y DG
Yn ogystal â deddfwriaeth Ewropeaidd a deddfwriaeth y DG, mae'r Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol yn ei gwneud yn ofynnol i bob cenedl a'i cadarnhaodd ddatblygu ei gynllun gweithredu ei hun ar gyfer gwarchod y defnydd cynaladwy o bioamrywiaeth. Ymateb llywodraeth y DG oedd lansio *Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r DG* ym 1994. Mae'r cynllun yn ymrwymo llywodraeth y DG i'r *"amcan strategol o warchod a lle bo hynny'n bosibl, ychwanegu at bioamrywiaeth biolegol o fewn y DG a chyfrannu at warchod bioamrywiaeth byd-eang drwy'r holl weithdrefnau priodol".* I gynghori'r Llywodraeth sefydlwyd Gr@p Llywio Bioamrywiaeth gyda chynrychiolwyr o'r sector cadwraeth, busnes a diwydiant, ffermio a buddiannau yn ymwneud â rheoli tir ac o lywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog. Ym 1995 cynhyrchodd y gr@p hwn *Bioamrywiaeth: Adroddiad Gr@p Llywio y DG*, a restrodd dros 1000 o rywogaethau y mae angen i gamau gael eu cymryd er mwyn gwarchod eu statws cadwraeth o fewn y DG. Paratowyd cynlluniau gweithredu wedi eu costio ar gyfer 100 o rywogaethau (CGRh) ac 14 o gynefinoedd (CGC) gydag ymrwymiad i baratoi 286 pellach o gynlluniau rhywogaethau a 24 o gynlluniau cynefinoedd o fewn dwy i dair blynedd. (Cyflawnwyd hyn bellach. Mae gan Ecolegydd PCBB gopïau o holl gyfrolau perthnasol y cynllun gweithredu cenedlaethol). Ystyriai'r gr@p os oes targedau cenedlaethol i gael eu cwrdd fod angen iddynt gael eu trosi yn weithredu effeithiol ar lefel leol drwy gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi eu hwyluso gan awdurdodau lleol. Mae cynlluniau lleol ar hyn o bryd yn ffurfio swmp y gwaith cadwraeth yngl~n â bioamrywiaeth yn y DG.

Roedd y Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol yn ffurfio rhan o Agenda 21 ac o ganlyniad mae proses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn rhan o broses Agenda Leol 21 (AL21). Mae AL21 yn ymwneud â phobl yn gweithredu ar lefel leol i wella ansawdd eu bywyd ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Mae'n cynnwys llawer o faterion sy'n gysylltiedig â'i gilydd fel iechyd, trosedd, cyflogaeth, addysg ac ansawdd yr amgylchedd adeiledig. Y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yw'r broses drwy'r hon y gall pobl leol a chyrff lleol gynllunio a gweithredu i wella'r amgylchedd naturiol.

Dangosir y camau sy'n angenrheidiol i gynhyrchu a gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

yn Ffigur 1.

Ffigur 1



Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ym 1998 cytunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i hwyluso cynhyrchu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Yn ddiweddarach sefydlwyd Gr@p Llywio Bioamrywiaeth PCBB i oruchwylio'r broses. Mae'r Gr@p Llywio yn adrodd i Gr@p Ymgynghorol Rheoli Tir y Parc Cenedlaethol am gyngor a gwybodaeth ac i Awdurdod y Parc Cenedlaethol am gadarnhad. Ar hyn o bryd mae'r Gr@p Llywio yn cynnwys y cyrff canlynol:

Aelodau Gr@p Llywio CGBLl

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
D@r Cymru/Welsh Water
Asiantaeth yr Amgylchedd
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Y Comisiwn Coedwigaeth

Mae'r saith awdurdod unedol y mae'r Parc Cenedlaethol hwn yn rhan ohonynt yn aelodau gohebol o'r Gr@p Llywio.

Mae'r Gr@p Ymgynghorol Rheoli Tir yn cynnwys y cyrff canlynol:

Aelodau Gr@p Ymgynghorol Rheoli Tir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog
Cymdeithas Coedwigaeth Frenhinol

Undeb Amaethwyr Cymru
Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Y Comisiwn Coedwigaeth
Menter Coedwigaeth
Yr Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Gwledig
Cymdeithas y Tirfeddianwyr Gwledig
Asiantaeth yr Amgylchedd
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CADW
Yr Ymddiriedolaeth Coedlannau
APCBB

Bydd Gr@p Llywio PCBB yn parhau i oruchwylio gweithredu dros bioamrywiaeth ond wrth i'r broses ddatblygu rhagwelir y gall cyrff neu unigolion eraill ddymuno cyfrannu at waith y gr@p.

Amcanion CGBLl PCBB

Mae gan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yr amcanion canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth yngl~n â materion bioamrywiaeth ymysg cyrff sy'n gweithredu fel partneriaid, grwpiau cymunedol, busnes a diwydiant a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Sefydlu gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth ar lefelau unigol, cymunedol a threfniadaethol.
- Adolygu adnoddau bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol.
- Adolygu gweithgareddau bioamrywiaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac aelodau eraill o Gr@p Llywio'r CGBLl.
- Cydlynu gweithredu yngl~n â rhywogaethau a chynefinoedd drwy gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau a Chynefinoedd (CGC a CGRh).
- Cydlynu gweithredu lleol tuag at dargedau bioamrywiaeth cenedlaethol.
- Darparu fframwaith ar gyfer gwneud cais am gyllid ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth.
- Mae cynhyrchu'r ddogfen CGBLl hon yn nodi dechrau'r broses a ddefnyddir i weithredu bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol. Bydd proses barhaus o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd ac ymwybyddiaeth drwy addysg a gweithredu cymunedol; ffurfio partneriaethau gyda busnes, diwydiant, perchnogion tir a rheolwyr tir; paratoi a gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau; a diweddaru a monitro parhaus ar gynnydd y cynllun. Rhagwelir y bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu'n llawn yn achlysurol.

Mae'n hanfodol ailadrodd nad yw bioamrywiaeth yn rhywbeth y gellir ei wneud unwaith a'i roi o'r neilltu; bydd yn parhau i lywio ein gwaith am y dyfodol rhagweladwy.

Pennod 2

FFRAMWAITH CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Mae amrywiaeth o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau sy'n cyfrannu at warchod bioamrywiaeth yn gweithredu ar hyn o bryd o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cynnal gan amrediad o gyrff gan gynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau statudol a'r sector gwirfoddol. Mae'n hanfodol fod yr CGBLl wedi ei integreddio yn llawn gyda gweithgareddau cyfredol i sicrhau nad oes unrhyw ymdrechion yn cael eu dyblygu nag unrhyw wrthdaro o ran diddordebau i arwain y ffordd ar gyfer cynlluniau newydd ac adolygiadau o rai presennol. Mae Ffigur 2 yn nodi'r fframwaith ar gyfer cynllunio gweithredu bioamrywiaeth o fewn Parc Cenedlaethol ac mae disgrifiadau manwl o bob cynllun yn cael eu rhoi isod.

Ffigur 2



Agenda Leol 21, Strategaethau Cymunedol a Bioamrywiaeth

Cynaladwyedd yw'r egwyddor allweddol yng ngwaith APC. Mae gwarchod bioamrywiaeth wedi ei gysylltu'n annatod gyda chynaladwyedd amgylcheddol, datblygiad cynaladwy a sicrhau gwell ansawdd bywyd i'r bobl hynny sy'n byw ac yn gweithio o fewn PCBB. Mae'r nifer o erthyglau yn y Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol (Uwch Gynhadledd y Ddaear Rio 1992) –

- yn ei gwneud yn ofynnol i gadwraeth a defnydd cynaladwy o adnoddau ecolegol gael eu hystyried yn ystod prosesau o lunio penderfyniadau;
- yn annog mabwysiadu cynlluniau cadwraeth sy'n gadarn o safbwynt economaidd a chymdeithasol;
- yn annog hyrwyddo addysg gyhoeddus ac ymwybyddiaeth o warchod bioamrywiaeth;
- yn ei gwneud yn ofynnol i rannu adnoddau naturiol yn deg a gwarchod arferion cynhenid a thraddodiadol sy'n dod â budd i bioamrywiaeth.

Yn wir mae'r Parciau Cenedlaethol mewn safle unigryw i ymateb i'r gofynion hyn, o gofio eu pwrpasau a'u dyletswydd. Fel enghraifft, gellir rhoi hwb i gynlluniau eraill o fewn PCBB, fel y Gronfa Datblygiad Amgylcheddol gan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol hwn. Mae'n darparu ffynhonnell cyfeirio i grwpiau lleol sy'n dymuno datblygu eu prosiectau cynaladwy eu hunain a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer eu hardaloedd, a bydd y Parc Cenedlaethol ar gael i gynorthwyo'r grwpiau hyn i ddefnyddio'r cynllun yn lleol (gweler

eich prosiectau eich hun tud. 17).

Mae AL21 yn ymestyn cyr i'r gymuned gyfan. Mae llawer o wa cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion AL21. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth a gweithredu ar lefel leol i wella bioamrywiaeth.

Bydd darparu cymorth yn fanteisiol i grwpiau lleol a Gr@p Llywio CGBLl PCBB fel ei gilydd oherwydd efallai na fydd yn bosibl i'r Gr@p Llywio weithredu'r cynllun yn ei gyfanrwydd heb gyfranogiad grwpiau lleol. Bydd y cynllun yn sicr yn elwa o fewnbwn gan grwpiau lleol ac unigolion, y bydd eu gwybodaeth am hanes naturiol a diwylliant lleol yn hanfodol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n sensitif ac yn cwrdd ag anghenion pobl leol hefyd.

Sialens fawr i Gr@p Llywio'r CGBLl fydd sicrhau nad yw gwarchod bioamrywiaeth yn cael ei drin fel estyniad i warchod natur traddodiadol, lle mae'r pwyslais ym Mhrydain wedi bod ar ddiogelu'r gorffennol. Roedd yr agwedd hon bob amser yn symud gwarchod natur i ffwrdd oddi wrth benderfyniadau a gweithredu bob dydd y rhan fwyaf o bobl. Mae gwarchod bioamrywiaeth ar y llaw arall yn rhoi cyfle i bawb ddefnyddio adnoddau ecolegol mewn dull cynaladwy. Bydd hyn yn golygu newidiadau yn y rhagdybiaethau cysurus yngl~n â'r hyn yr ystyrir sy'n werthfawr a beth sydd ddim. Er enghraifft tra bydd ar y cynefinoedd traddodiadol fel coedlannau hynafol, dolydd hynafol a rhostir angen ymdrech arbennig bob amser i'w gwarchod, bydd pobl heddiw ac yn y dyfodol yn parhau i ryngweithio gyda'r tirlun, gan ffurfio cysylltiadau ecolegol newydd gydag ef. Mae gwarchod bioamrywiaeth yn golygu ein bod yn gwerthfawrogi'r prosesau modern hyn hefyd.

Mesur cynaladwyedd

Er mwyn i'r CGBLl hwn gael ei ddefnyddio gan bob sector, datblygir cyfres o arweiniad atodol. Er enghraifft, paratoir arweiniad cynllunio atodol i sicrhau bod polisïau cynllunio, argymhellion a

phenderfyniadau yn gydnaws ag amcanion a thargedau'r CGBLl ac y gall y CGBLl gael ei ddehongli mewn modd sy'n gydnaws â pholisi cynllunio. Gall fod yn addas hefyd i baratoi arweiniad atodol ar gyfer gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Parc Cenedlaethol. Byddai'r arweiniad hwn yn ei dro wedyn yn cyfrannu at yr ymdrech gyffredinol o fewn PCBB i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a'r penderfyniadau yn cael eu cyflawni mewn dull sy'n gynaladwy o safbwynt yr amgylchedd. Ni fydd yr ymdrech hon yn cyflawni amcanion cynaladwy o fewn y PCBB heb ymdrech gyfartal gan gyrff ac unigolion eraill o fewn y Parc. Bydd yn rhaid monitro cyflwr amgylchedd ac economi'r Parc, yn ogystal â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y rhain fel newid cymdeithasol a demograffig, newid diwydiannol a newid yn yr hinsawdd. Trwy fonitro'r ffactorau hyn, bydd cyrff ac unigolion yn gallu deall effaith eu gweithgareddau eu hunain yn ogystal â deall yr angen am bolisi a gweithredu cynaladwy pellach.

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae'n ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 adolygu a chyhoeddi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol bob pum mlynedd. Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno nodau ac amcanion ar gyfer rheoli'r Parc yn gyffredinol ac fe'i paratoir drwy ymgynghori â'r cyhoedd a chyrff sydd â diddordeb yn ardal y Parc.

Mae CRhPC yn darparu'r weledigaeth a'r fframwaith ar gyfer yr holl strategaethau eraill a'r dogfennau statudol a baratowyd gan APC. Gweledigaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y CRhPC yw

"Partneriaeth o'r holl rai hynny sy'n byw ac yn gweithio yn, yn mwynhau neu yn gofalu am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i warchod ei harddwch, ei gymeriad a'i heddwch, ei dreftadaeth naturiol a diwylliannol a'i ffordd o fyw, er eu mwyn eu hunain ac er mwyn i'r Parc barhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a mwyniant i bawb".

Yn amlwg, mae gwarchod bioamrywiaeth wrth galon y weledigaeth hon.

Bydd CRhPC yn cynnwys Cynlluniau Rheoli Ardal (CRhA) ar gyfer pob un o'r unarddeg o ardaloedd tirlun a ddiffiniwyd gan ymarferiad disgrifio tirlun. Ar gyfer pob ardal nodir meysydd gwaith allweddol a bydd y CGBLl hwn yn waith cyfeirio allweddol ar gyfer y gwaith hwn.

Cynllun Datblygu Unedol

Mae'n ofynnol i APC, yn ei swyddogaeth fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gynhyrchu Cynllun Datblygu Unedol (CDU) i lywio polisi cynllunio yngl~n â defnyddio a datblygu tir yn y dyfodol. Mae gan y CDU a'i ragflaenydd y Cynllun Lleol sydd wedi ei fabwysiadu rôl hanfodol i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Bydd y CGBLl yn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol gan yr Awdurdod Cynllunio i nodi materion bioamrywiaeth allweddol yn ardal y CDU. Bydd arweiniad cynllunio atodol hefyd yn cynorthwyo i weithredu polisi.

Newid yn yr hinsawdd

Mae Rhaglen Effaith Hinsawdd y DG (UKCIP) wedi datblygu nifer o wahanol senarios ynghylch difrifoldeb newid yn yr hinsawdd. Seilir y rhain ar wahanol ragolygon o gynnydd mewn tymheredd, glawiad, codiad yn lefel y môr ac yn y blaen. Yn gyffredinol yn ardal Canolbarth Cymru, noda pob un o'r senarios hyn y bydd gaeafau yn mynd yn fwynach, yn wlypach ac yn fwy stormus, tra bydd hafau yn boethach ac yn sychach. Mae dadansoddiad pellach a gyflawnwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau a'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn ceisio rhagfynegi yr effeithiau y bydd y newidiadau hyn yn yr hinsawdd yn ei gael ar lystyfiant, patrymau dosbarthu rhywogaethau ac amaethyddiaeth, yn ogystal ag amlinellu'r ymatebion y dylai rhanbarthau ac ardaloedd lleol eu datblygu. Er enghraifft, gallai tymhorau tyfu fynd yn hwy drwy ddechrau yn gynt a diweddu yn hwyrach. Gallai tymereddau yn ystod yr haf godi, gan achosi perygl cynyddol o bwysau gwres i dda byw a all yn eu tro fwyta llai a dioddef cyfraddau ffrwythloni is. Byddai newidiadau o'r fath yn amlwg yn cael effeithiau ar y diwydiant rheoli da byw a chynefinoedd oni bai na fydd y newidiadau angenrheidiol i'r ddau sector yn cael eu gwneud.

Ceir rhywfaint o ddadl ynghylch ai Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yw'r broses briodol ar gyfer datblygu a gweithredu camau i ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Ar hyn o bryd nid yw'r CGBLl hwn yn cynnwys cynllun gweithredu neu dargedau penodol i ymdrin â'r effeithiau hyn neu i liniaru effeithiau yn y dyfodol. Mae hwn yn fater sydd angen ei ystyried ymhellach. Mae APCBB yn cymryd camau i wella'i ddealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd ac yn ystyried pa gamau a all fod yn angenrheidiol.

Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth rhanbarthol a lleol awdurdodau unedol eraill

Nid yw anifeiliaid a phlanhigion yn parchu ffiniau gwleidyddol. Mae'n bwysig fod proses y CGBLl yn cydnabod hyn a bod cydlynu rhwng awdurdodau lleol cyfagos. Bydd CGBLl PCBB yn cael ei osod o fewn fframwaith y cynlluniau rhanbarthol sy'n cael eu paratoi gan Gr@p Ymgynghorol Bioamrywiaeth Morgannwg, Gr@p Gweithredu Bioamrywiaeth Gwent Fwyaf a chynlluniau lleol sy'n cael eu paratoi gan Bartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Powys.

Argymhellir cydweithredu rhwng awdurdodau hefyd gan arweiniad cynllunio strategol rhanbarthol. Er enghraifft noda'r arweiniad cynllunio strategol drafft ar gyfer De Ddwyrain Cymru: "Dylai awdurdodau weithio tuag at gydnabod safleoedd tirlun a gwarchod natur anstatudol sy'n bwysig yn rhanbarthol yn eu cynlluniau, drwy gyfrannu at a chynhyrchu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth rhanbarthol a lleol a mabwysiadu methodolegau gwerthuso tirlun cyffredin.

Mae "Arweiniad i Bioamrywiaeth ar gyfer y Sectorau Cynllunio a Datblygu yng Nghymru", yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol. Mae arweiniad tebyg wedi ei dderbyn yn ffafriol eisoes gan y sector cyhoeddus yn Ne Orllewin Lloegr. Bydd arweiniad Cymru yn rhoi pwynt cyfeirio cyntaf defnyddiol i awdurdodau lleol sy'n gwneud Arolygon Gwasanaeth Gwerth Gorau (gweler **tudalen 12**). Bydd hefyd yn cynorthwyo adrannau sy'n cynllunio tuag at y dyfodol i ddatblygu polisïau diweddaraf ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth a gwneud cynllunio defnydd tir yn fwy ymatebol i'r mater hwn sy'n torri ar draws ffiniau.

Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd (CLlAA) yn gynlluniau rheoli integredig lleol, a gynhyrchwyd gan Asiantaeth yr Agylchedd, sy'n nodi, asesu, blaenoriaethu ac yn datrys materion amgylcheddol lleol yn ymwneud â swyddogaethau statudol yr Asiantaeth. Paratoir CLlAA o fewn fframwaith cynaladwyedd ac AL21 ac maent yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus. Mae proses CLlAA yn darparu ffocws i bartneriaethau lleol a

gweithredu cymunedol ac yn chwarae rôl yn y gwaith o greu gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus a dealltwriaeth o faterion amgylcheddol.

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ran bwysig mewn gweithredu bioamrywiaeth ar lefel genedlaethol a lleol. Noda'r CLIAA faterion sy'n peri pryder ac atebion yn ymwneud â bioamrywiaeth ar lefel dalgylch a byddant yn bwydo'n uniongyrchol i broses y CGBLI.

Safleoedd bywyd gwyllt

Mae safleoedd bywyd gwyllt yn safleoedd ail haen anstatudol o ddiddordeb ecolegol, y cyfeirir atynt weithiau fel Safleoedd o Bwysigrwydd i Warchod Natur (SINCs). Cynhwysir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn prosiect o Safleoedd Bywyd Gwyllt i Bowys gyfan, sydd hefyd yn cynnwys yr awdurdodau lleol, undebau amaethyddol, yr ymddiriedolaethau bywyd gwyllt lleol a'r asiantaethau gwarchod natur a'r asiantaethau rheoli amgylcheddol statudol. Yr amcan yw nodi a diogelu safleoedd sy'n bwysig yn lleol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau arbennig ond nad ydynt yn cael eu gwarchod drwy'r system dynodi statudol.

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ystyried yn barod fel un sy'n datblygu arfer gorau ar gyfer nodi a gwerthuso safleoedd ac ar gyfer sicrhau cyfranogiad tirfeddianwyr yn y broses. Mae Adran yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau (AACRh) wedi cyflawni arolwg o'r safleoedd ail haen hyn, ac wedi argymell y dylai pob awdurdod lleol wneud darpariaeth ar eu cyfer, yn ôl proses safonol, atebol.

Diogelir y safleoedd hyn yn bennaf drwy ddarparu cyngor yngl~n â rheoli a chynlluniau cymorth grant amaeth-amgylchedd, (Tir Gofal, Cynllun Grant Coedlannau ac ati). Yn ychwanegol bydd System y Safleoedd Bywyd Gwyllt yn cael ei chynnwys o fewn fframwaith y cynllun datblygu yn unol â chyngor y Llywodraeth (Arweiniad Cynllunio (Cymru) Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5 ac ati).

Bydd System y Safleoedd Bywyd Gwyllt yn rhoi dull o gyflwyno rhai o'r targedau ynghylch cynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd yn y CGBLI. Gweler **Camau Gweithredu Cyffredinol ar Thargedau** yn y gyfrol hon.

Cynlluniau Amaeth-Amgylchedd

Mae amrediad o gynlluniau y rhoddir cymorth grant tuag atynt ar gael i dirfeddianwyr i annog rheolaeth sensitif ar gynefinoedd bywyd gwyllt (**Tabl 2.1**) a gobeithir y bydd y rhain yn cyflwyno rhai o'r targedau a nodwyd mewn cynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau. Y cynlluniau a fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at bioamrywiaeth yw Tir Gofal, dull o drin cadwraeth ar gyfer ffarm gyfan a'r Cynllun Grant Coedlannau gyda'r Cronfeydd Her sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn.

Tabl 2.1

Cynllun	Corff cyfrifol	Math o gynllun
Tir Gofal*	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Fferm gyfan
Cynllun Grant Coedlannau, Grant Gwella Coedlannau a Cheisiadau Her	Comisiwn Coedwigaeth	Coedlannau presennol a newydd
Cytundebau Rheoli Adran 39	Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol	Unrhyw dir o ddiddordeb o ran cadwraeth
Cynllun Premiwm Coedlannau Fferm	AA CCC	Coedlan newydd
Cynllun Cymorth Organig	AA CCC	Trosi tir amaethyddol i gynhyrchu organig

*Datblygwyd Tir Gofal gan y Swyddfa Gymreig ac mae'n eiddo i ac yn cael ei gyllido gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae CCGC yn gweinyddu'r cynllun ar ran CCC.

Busnes a bioamrywiaeth

Mae Conffederasiwn Diwydiant Prydain wedi nodi: *"Mae bioamrywiaeth yn elfen hanfodol o ddatblygiad cynaladwy oherwydd*

- *mae amrywiaeth organebau biolegol wedi ei glymu'n annatod â lles yr eco-system: system*
- *cynnal bywyd y planed, ac felly â bywyd dynol ei hun;*
- *mae bioamrywiaeth yn darparu bwyd, deunyddiau crai ac adnoddau eraill sydd o fantais uniongyrchol i'n heconomi drwy ffermio, pysgota a choedwigaeth;*
- *mae bioamrywiaeth o bwysigrwydd cymdeithasol mawr hefyd ac yn ganolog i'r modd y mae pobl yn mwynhau cefn gwlad Prydain, ac yn wir i'r diwydiant twristiaeth a hamdden;*
- *mae gan bioamrywiaeth werth cynhenid ac mae'n bwysig ynddo'i hun a throsto'i hun. Dyma yw cysyniad 'stiwardiaeth' – bod gennym gyfrifoldeb moesol i warchod amrywiaeth bywyd ar y ddaear yn ei holl ffurf."*

(Ymateb CBI i bapur ymgynghorol y Llywodraeth 'Making Biodiversity Happen', Gorffennaf 1998).

Er bod gan rai gweithgareddau masnachol rôl bwysig i'w chwarae yn nhermau rheoli bioamrywiaeth e.e. coedwigaeth ac amaethyddiaeth, mae'r sectorau hyn eisoes yn ymwybodol o'r materion pwysig. Gellir annog y sectorau busnes ehangach i ystyried y cysylltiadau rhwng eu gweithgareddau a bioamrywiaeth, hyd yn oed pan nad yw'r rhain yn amlwg ar unwaith.

Mae Bord Gron y DG ar ddatblygiad cynaladwy yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Dylai'r cyrff sy'n rheoleiddio achredu systemau rheoli amgylcheddol, a'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r broses achredu, gymryd camau i sicrhau bod bioamrywiaeth fel pwnc yn cael ei ystyried ac y rhoddir pwysau priodol iddo mewn unrhyw asesiad.

Dylai cyrff busnes gyfleu i'w haelodau pa mor bwysig yw Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG, er enghraifft drwy hyrwyddo yr arweiniad Busnes a Bioamrywiaeth neu drwy ddatblygu canllawiau bioamrywiaeth sectoraidd.

Mae cwmni, boed hwnnw yn un masnachol, diwydiannol neu amaethyddol, yn fwyaf tebygol o ffurfio ei GBB (BAP) ei hun os oes ganddo dirddaliadau neu os yw ei weithgareddau yn cael effeithiau clir ar bioamrywiaeth. Gall hyd yn oed cwmnïau a leolir mewn swyddfeydd neu nad oes ganddynt dirddaliadau ffurfio strategaethau bioamrywiaeth effeithiol i wneud defnydd o'u sgiliau a'u hadnoddau, i ysgogi a hyfforddi staff ac i gyfrannu at gynlluniau gweithredu lleol a hyd yn oed cenedlaethol, yn ogystal â chyflawni ymrwymiadau datblygiad cynaladwy mewn systemau rheoli busnes.

Gall cwmnïau sy'n gweithredu o fewn PCBB ddymuno ystyried datblygu eu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth eu cwmnïau eu hunain. Byddai

CGBLl PCBB yn darparu ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol ar gyfer dewis targedau a hyd yn oed rywogaethau a chynefinoedd cyfain, er enghraifft.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn gwahodd cwmnïau ac unigolion i ystyried eu hymrwymiad i warchod bioamrywiaeth. Gall y nodweddion allweddol canlynol fod o gymorth i'r ystyriaeth hon:

- Sut i gyflawni dealltwriaeth o warchod bioamrywiaeth mewn perthynas â gweithgareddau'r cwmni
- Sut i ddatblygu CGB (BAP) i gwmni neu gyfres o gamau gweithredu neu ddangosyddion i gyfrannu at warchod bioamrywiaeth lleol a/neu genedlaethol
- Sut i weithio gyda phartneriaid lleol
- Integreiddio ISO 14001/EMAS
- Cefnogaeth gan uwch reolwyr a chydweithwyr
- Cymwysterau amgylcheddol y staff
- Sicrhau cyfranogiad gan weithwyr a chleientau
- Ariannu gwarchod bioamrywiaeth lleol – dewis cynefinoedd neu rywogaethau i'w gwarchod
- Cyfathrebu gyda rhai sy'n ymwneud â hyn, cleientau, y cyhoedd

Eglurir y broses uchod yn llawnach mewn dau arweiniad a gyhoeddwyd gan Earthwatch UK ar ran Bord Gron y DG ar ddatblygiad cynaladwy ac Adran yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau. Y rhain yw "Business and Biodiversity" a "Case studies in business and biodiversity". Mae gan Ecolegydd PCBB gopïau o'r ddau gyhoeddiad hwn. Fel arall gellir cael copïau ohonynt oddi wrth Earthwatch drwy ffônio 01865 311 600, e-bost info@earthwatch.org.uk.

Siarter bioamrywiaeth

Os cynhyrchir digon o ddiddordeb o'r sector busnes, mae'n bosibl y bydd gwerth mewn datblygu safon i ddiwydiant lleol neu 'siarter bioamrywiaeth' ar gyfer y busnesau hynny sy'n gwneud ymdrech arbennig i gynorthwyo i warchod bioamrywiaeth lleol o fewn PCBB. Yn ychwanegol neu fel dewis arall, gall fod yn awgrym deniadol i ddatblygu gweithgor busnes a bioamrywiaeth o fewn PCBB.

Gwerth gorau a bioamrywiaeth

Mae gwarchod bioamrywiaeth yn gydran hanfodol mewn gwella ansawdd bywyd pobl yn yr ardal. Mae corff democrataidd fel awdurdod lleol, ac i raddau llai, Awdurdod Parc Cenedlaethol (a derbyn ei bwerau mwy cyfyngedig), mewn lle unigryw i gynnal ansawdd bywyd oherwydd mai ef yn unig sydd â'r gallu i ddatrys diddordebau sy'n gwrthdaro â'i gilydd a chyflwyno atebion i'r problemau cymhleth a'r materion sy'n torri ar draws ffiniau sy'n gysylltiedig â chynaladwyedd. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol y mae'n rhan ohono felly, gyfleoedd sylweddol i wneud gwahaniaeth fel hyn.

Mae cynnwys datblygiad cynaladwy o fewn gwerth gorau yn un o ofynion y broses Gwerth Gorau. Mae datblygiad cynaladwy yn fater sy'n torri ar draws gwahanol themâu sy'n effeithio ar holl weithgareddau unrhyw gorff. Mae PCBB wedi cyhoeddi ei Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau ac felly mae'n bosibl datblygu gweithgareddau Gwerth Gorau sy'n sicrhau bod gwarchod bioamrywiaeth yn cael ei integreiddio i'r holl waith o lunio polisi, llunio penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau; bydd hyn yn sylfaenol i sicrhau bod PCBB yn sicrhau datblygiad cynaladwy yn ei weithgareddau ei hun. Fel isafswm, bydd yn rhaid i BCBB sicrhau bod ei arolwg o'r Gwasanaeth Gwerth Gorau yn nodi

- manteision cynnwys gwarchod bioamrywiaeth fel pwnc sy'n torri ar draws sectorau
- y ffactorau cyfredol o ran trefniadau sy'n cyfyngu ar gyflwyno gwarchod bioamrywiaeth
- argymhellion ar gyfer goresgyn y cyfyngiadau hyn
- safonau perfformiad Gwerth Gorau ('meincnodau') a argymhellir ar gyfer bioamrywiaeth
- argymhellion ar gyfer targedau realistig i wella'r modd y cyflwyna APC warchod bioamrywiaeth.

Gallai Arolwg o'r Gwasanaeth Gwerth Gorau ddod i'r casgliad mai'r dull mwyaf priodol o sicrhau Gwerth Gorau ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yw datblygu a gweithredu cynllun gweithredu bioamrywiaeth i wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau.

Er enghraifft, gallai'r arolwg nodi prinder sgiliau mewn meysydd sy'n angenrheidiol i gyflawni camau gweithredu i reoli cynefinoedd a rhywogaethau. Gallai nodi fod angen i adnoddau presennol gael eu hail-ddyrannu er mwyn gwella'r sail sgiliau a hefyd i'w gwneud yn haws i weithredu cynlluniau gweithredu arbennig. Byddai darganfyddiadau o'r fath yn rhoi hwb APC i ddatrys y diffygion hyn. Fel enghraifft arall, mae cyfradd y newid mewn deddfwriaeth a'r arweiniad polisi sy'n effeithio ar ddefnydd tir yr amgylchedd yn cynyddu'n sylweddol. Gallai arolwg o'r Gwasanaeth Gwerth Gorau nodi meysydd lle mae angen i APC ddysgu mwy am faterion sydd bellach angen ystyriaeth wedi ei phwysoli mewn penderfyniadau cynllunio ynghylch defnydd tir.

Pennod 3

MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN

Sefydlwyd proses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i ddarparu agwedd wedi ei blaenoriaethu a'i thargedu at warchod bioamrywiaeth y gellid hefyd ei monitro i asesu cynnydd ar lefelau lleol a chenedlaethol. Mae monitro felly wrth galon y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac mae'n hanfodol fod systemau ar gyfer monitro ac adolygu pob agwedd ar y cynllun yn cael eu cynnwys.

Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd (CGC) a Chynlluniau Gweithredu Rhywogaethau (CGRh)
Bydd monitro cynefinoedd a rhywogaethau yn angenrheidiol ar gyfer pob CGC a CGRh. Bydd gan bob cynllun gweithredu gorff arweiniol a'u cyfrifoldeb hwy fydd sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a'r cynnydd yn ymwneud â'r cynllun hwnnw yn cael ei goladu. Bydd casglu data o'r fath yn broses hir ohewydd y bydd nifer o gyrff yn gweithredu dros gynllun arbennig. Bydd y gwaith o goladu'r data hwn yn cael ei gydlynu gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth.

Cyn gynted ag y bo cynlluniau ar y gweill, paratoir adroddiadau blynyddol ar gyfer pob cynefin neu rywogaeth gan y corff arweiniol a bydd yr wybodaeth yn cael ei bwydo i'r broses genedlaethol drwy Gr@p Bioamrywiaeth Cymru. Ni phenderfynwyd eto sut y cyflawnir hyn ar lefel genedlaethol.

Addysg ac ymwybyddiaeth
Amcan y Cynllun Gweithredu Amaeth ac Ymwybyddiaeth yw cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o bioamrywiaeth fel y gall unigolion lunio penderfyniadau doeth ac y gallant wneud newidiadau i'w ffordd eu hunain o fyw a fydd yn dod â budd i bioamrywiaeth lleol a byd-eang. Er ei bod yn weddol rhwydd monitro pa weithgareddau yn ymwneud ag addysg ac ymwybyddiaeth sydd wedi digwydd mae'n anodd penderfynu a fu unrhyw newid yn amgyffred y cyhoedd ac a yw unigolion wedi cymryd unrhyw gamau cadarnhaol.

Bydd y Cynllun Gweithredu Addysg ac Ymwybyddiaeth yn cynnwys targedau ar gyfer monitro gweithredu a bydd Gr@p Llywio PCBB yn ymchwilio i ffyrdd o fonitro materion ehangach yn ymwneud ag amgyffred y cyhoedd. Bydd cyfrifoldeb am fonitro'r cynllun gweithredu yn nwylo APC, ond bydd yn bwysig sicrhau bod gweithredu gan yr holl bartneriaid gan gynnwys paratoi cyhoeddiadau, digwyddiadau, cynlluniau cysylltiadau cyhoeddus ac ati yn cael eu cydlynu a'u cyhoeddi.

Arolwg CGBLl
Dylai'r CGBLl gael ei adolygu o bryd i'w gilydd; mae bob pum mlynedd yn safon y mae'r rhan fwyaf o gyrff yn gysurus ag ef. Man cychwyn defnyddiol ar gyfer arolwg yw asesiad o'r hyn a elwir yn 59 o gamau a restrwyd ar dudalennau 165-168 "Biodiversity – the UK Action Plan". Tra gall rhai o'r camau gweithredu a argymhellir yn y 59 o Gamau gael eu hasesu ar lefel genedlaethol yn unig, mae llawer o'r pwyntiau yn berthnasol i'r broses leol a dylai bob corff sy'n gweithredu fel partner asesu ei gyfraniad i broses y CGBLl. Yn wir, mae'r CGBLl hwn yn cynnwys cam gweithredu cyffredinol a tharged ar gyfer gwneud yr asesiad hwn (gweler **Pennod 5**) yn ogystal â chynlluniau gwaith asiantaeth ar gyfer pob partner (gweler **Atodiad 3**).

Archwiliad a Gwerthusiad o Gynefinoedd a Rhywogaethau

Archwiliad o gynefinoedd a rhywogaethau
Bydd yr archwiliad o gynefinoedd a rhywogaethau yn cael ei ail-werthuso yn ystod yr arolwg o CGBLl. Mae'r archwiliad dechreuol yn cynnwys llawer o fylchau oherwydd diffyg data ar gyfer mwyafrif y cynefinoedd a'r rhywogaethau. Mae'n hanfodol fod casglu data priodol yn cael ei gynnwys mewn camau gweithredu ar gyfer pob CGC neu GGRh fel y gellir gwneud asesiad mwy cywir o adnoddau bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol ym mhob un o arolygon y cynllun. Bydd y math o ddata sy'n cael ei gasglu yn cael ei ddiffinio yn ôl targedau rheoli ac adfer ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau dan sylw.

Y broses archwilio
Dechreuodd yr archwiliad o gynefinoedd a rhywogaethau ym Mehefin 1998. Amcan yr archwiliad oedd casglu a dadansoddi'r holl ddata ar gynefinoedd a rhywogaethau CGB (BAP) y DG o fewn PCBB ac yn ychwanegol nodi a gwerthuso cynefinoedd a rhywogaethau o werth o safbwynt cadwraeth lleol. Casglwyd gwybodaeth mewn dwy ffordd: drwy adolygu data a gedwid gan gyrff a oedd yn gweithredu fel partneriaid a thrwy ymgynghori gyda chofnodwyr bywyd gwyllt lleol a chenedlaethol.

Arolwg data
Mae gan APC amrediad o ddata ar gronfa ddata electronig. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys data am laswelltiroedd Cam 1 a Cham 2, cofnodion achlysurol am gynefinoedd a rhywogaethau, arolygon coedlannau o'r 1970au a'r 1980au, arolygon am safleoedd penodol a rhywfaint o arolygon am rywogaethau penodol. Cedwir cofnodion am glwydi ystlumod ar gronfa ddata ar wahân. Bydd cronfa ddata APC i gyd yn dod yn gyfrifoldeb y GGB (BIS) a fydd yn cael ei reoli yn y dyfodol, o dan gytundeb lefel gwasanaeth.

Darparwyd cofnodion ychwanegol am ddata a rhywogaethau Cam 2 gan GCGC a Thir Cymen. Darparodd D@r Cymru wybodaeth am gorsleoedd mewn gweithfeydd trin d@r. Darparodd Asiantaeth yr Amgylchedd arolygon o goridorau afonydd a chofnodion am rywogaethau. Darparodd y Comisiwn Coedwigaeth ddata am gynefinoedd a gasglwyd o'r Cynllun Grant Coedlannau. Darparodd yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt gofnodion am safleoedd a rhywogaethau. Lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl cafodd y data hyn eu cofnodi ar gronfa ddata APC fel y gellid cynhyrchu mapiau dosbarthiad.

Ymgynghoriad â chofnodwyr bywyd gwyllt
Cysylltwyd i ddechrau â chofnodwyr lleol drwy'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn amrywiol. Er enghraifft, derbyniwyd cyfanswm sylweddol o ddata am famaliaid o ardal Brycheiniog ond ychydig o ardal Gwent. Yn ychwanegol, roedd ansawdd a manylion y cofnodion yn amrywio'n sylweddol gyda rhai cofnodion yn cynnwys cyfeiriad grid a manylion am gynefinoedd tra roedd eraill yn darparu data am ardaloedd yn unig. Yn gyffredinol, darparodd cofnodwyr lleol wybodaeth am rywogaethau yn hytrach nag am gynefinoedd.

Ymgynghorwyd â nifer o gyrff cenedlaethol hefyd. Dim ond ychydig o ymatebion a dderbyniwyd, er i'r gymdeithas Gwarchod Ieir Bach yr Haf a'r GFGA ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol. Nodwyd y diffyg cymorth o setiau data cenedlaethol fel gwendid ym mhroses y DG yn gyffredinol.

Arolwg o'r archwiliad
Cwblhawyd y broses o gasglu data ar gyfer yr archwiliad ym Mawrth 1999. Ond bydd gwybodaeth yn parhau i gael ei chasglu fel rhan o broses barhaus y CGBLl.

Mae arolwg o'r wybodaeth a gasglwyd wedi nodi'r problemau canlynol gyda'r data:

- gwybodaeth fanwl gyfyngedig am rywogaethau yn arbennig infertebrata a fflora;
- Data anghyson am ardal y Parc Cenedlaethol;
- Data wedi dyddio a heb ei ddilysu;
- anghysondebau mewn dulliau cofnodi cynefinoedd a rhywogaethau.

Yng ngoleuni'r problemau hyn rhaid i'r data a gyflwynwyd yn yr archwiliad a'r gwerthusiad ohono yn dilyn hynny gael ei ystyried yn ofalus. Rhagwelir wrth i'r broses o bioamrywiaeth barhau y bydd casglu data drwy arolygu a monitro yn fwy systematig fel y gellir cynhyrchu archwiliad a gwerthusiad mwy cyflawn a chywir yn y cam arolwg. Rôl ychwanegol i'r GGB (BIS) fydd gwella neu safoni dulliau arolygu maes. Ers i'r archwiliad hwn gael ei gyflawni, mae Gr@p Bioamrywiaeth Cymru wedi cyhoeddi Archwiliad o Rywogaethau Bioamrywiaeth i Gymru ac mae CCGC wedi cynhyrchu nodiadau arweiniad ynghylch gorchudd i gynefin a gosod targedau. Mae'r ddau ddarn hwn o waith yn ymdrin ag ardal pob cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol yng Nghymru. Mae Gr@p Llywio CGBLl PCBB wedi adolygu'r cynlluniau gweithredu a gyhoeddwyd yn "Ein Byd Naturiol" yn erbyn y setiau data newydd hyn a gwnaed cywiriadau.

Gwerthuso cynefinoedd
I benderfynu pa gynefinoedd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer gweithredu, cafodd yr holl gynefinoedd a nodwyd yn y broses archwilio eu gwerthuso gan ddefnyddio meini prawf a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Eryri. Seilir y rhain ar arweiniad a ddarparwyd gan Gr@p Ymgynghorol Materion Lleol y DG yn Nodyn Arweiniad 4. Rhoddir y meini prawf a'r system sgorio yn **Nhabl 3.1.** Rhoddir y sgôr a'r drefn ar gyfer pob cynefin yn **Atodiad 1.**

Tabl 3.1 Meini prawf a system sgorio ar gyfer gwerthuso cynefinoedd

Maen prawf	Diffiniad	Sgôr
Blaenoriaeth		
	Cynefin y rhoddir blaenoriaeth iddo yng Nghyfarwyddeb Cynefinoedd y DG/Rhyngwladol	2
	Cynefin CGB (BAP) allweddol y DG	1
	Dim un ohonynt	0
Arwahanrwydd lleol		
	Arbennig yn lleol	1
	Ddim yn arbennig yn lleol	0
Pwysig i rywogaethau CGB y DG		
	Pwysig ar gyfer Rhywogaeth y rhoddir Blaenoriaeth iddi neu Rywogaeth sy'n peri Pryder o ran Cadwraeth	1
	Ddim yn bwysig ar gyfer rhywogaethau CGBLl	0
Dirywiad lleol		
	Yn dirywio: mwy na 25% o ostyngiad yn y 25 o flynyddoedd diwethaf	2
	Sefydlog; rhwng 25% o ostyngiad a 25% o gynnydd yn y 25 o flynyddoedd diwethaf	1
	Yn cynyddu; mwy na 25% o gynnydd yn y 25 o flynyddoedd diwethaf	0
Cyfran o gynefin y DG mewn ardal leol		
	Pwysig iawn; cynefin lleol yn ffurfio 20-100% o adnodd y DG	2
	Pwysig; cynefin lleol yn ffurfio 10-19% o adnodd y DG	1
	Ynysig; cynefin lleol yn llai na 10% o'r adnodd	0
Bygythiad lleol		
	Uchel; cynefin bregus	2
	Canolig; cynefin llai bregus	1
	Isel; cynefin diogel	0
Prin yn lleol		
	Prin; cynefin ar hyn o bryd yn gorchuddio llai na 0.6% o'r ardal	2
	Prin; cynefin ar hyn o bryd yn gorchuddio 0.6-4.0% o'r ardal	1
	Cyffredin; cynefin ar hyn o bryd yn gorchuddio mwy na 4.0% o'r ardal	0

Gwerthuso rhywogaethau
Profwyd system debyg o sgorio a dosbarthu ar gyfer rhywogaethau, er bod diffyg data meintiol ar gyfer y

rhan fwyaf o'r tacsa yn gwneud y broses hon yn ddiystyr. Felly gwnaed asesiad ansoddol yn seiliedig ar wybodaeth lleol gyda'r amcan o gasglu data meintiol mwy defnyddiol yn ystod cyfnod gweithredu'r CGBLl. Dangosir y gwerthusiad hwn o rywogaethau yn **Atodiad 2.**

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu
Cyflwynir gwarchod bioamrywiaeth drwy Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau (CGC a CGRh a gasglwyd yng Nghyfrol 3 "Ein Byd Naturiol" ynghyd â'r mapiau dosbarthiad unigol o gynefinoedd/rhywogaethau) a fydd yn cynnwys amcanion a chamau wedi eu targedu ar gyfer pob cynefin neu rywogaeth. Yr amcan yw cwblhau cynlluniau gweithredu ar gyfer yr holl gynefinoedd a restrwyd a'r holl rywogaethau hynny y mae digon o ddata ar gael ar eu cyfer a naill ai na ellir ei warchod drwy reolaeth briodol ar gynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt neu y mae eu presenoldeb yn ei gwneud yn haws i nodi amcanion cyffredinol ar gyfer eu gwarchod.

Ond oherwydd bod adnoddau ac amser yn gyfyngedig nid yw'n ymarferol paratoi a gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer yr holl gynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd fel rhai sydd o bwysigrwydd

cenedlaethol neu leol yn y Parc Cenedlaethol. Felly mae rhan gyntaf y cynlluniau gweithredu ar gael oddi wrth Gr@p Llywio CGBLl PCBB. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd sy'n cael y sgôr uchaf ar y sgôr gwerthuso a rhywogaethau y tybir sydd fwyaf pwysig mewn cyd-destun lleol. Cynhwysir rhai cynefinoedd sy'n cael sgôr uchel mewn ail ran nad yw eto wedi ei ddrafftio oherwydd adnoddau cyfyngedig. Mae dewis a pharatoi cynefinoedd a rhywogaethau ar gyfer cynhyrchu cynllun gweithredu/datganiad yn broses sy'n parhau. Yn awr bod y cynllun hwn wedi ei gyhoeddi, y brif flaenoriaeth fydd gweithredu'r cynlluniau sydd yn cael eu cyhoeddi gydag ef, yn hytrach na mynd yn ôl i'r dechrau a chynhyrchu mwy o gynlluniau gweithredu.

Cynefinoedd

Bydd y CGRh yn targedu gweithredu i wella cyflwr cadwraeth pob cynefin ond byddant hefyd yn dod â manteision i amrediad o rywogaethau. Mewn rhai CGRh yr amcan fydd cynyddu maint y cynefin, ac enghraifft o hyn fyddai coedlan dderi yn yr ucheldir. Mewn CGRh eraill yr amcan fydd cynnal yr ardal bresennol a gwella'r ansawdd, er enghraifft ni all yr ardal o bafin calchfaen gael ei chynyddu ond gellir gwella ansawdd y llystyfiant. Lle'r argymhellir ehangu cynefinoedd fel coedlannau mae'n bwysig sicrhau nad yw hyn ar draul cynefinoedd eraill sydd yr un mor bwysig; cynhwysir camau gweithredu i atal hyn rhag digwydd.

Tabl 3.2 Rhaglen cynhyrchu CGRh a CGC

Rhan gyntaf 2000	Ail ran 2000/2001	CG Rhywogaethau yn y rhan gyntaf
Porfa rhos	Prysg	Morgrugyn y coed
Rhos gyda phrysg bychain	Ymylon caeau grawnfwydydd	Y gylfinir
Cyforgors a gorgors	Cynefinoedd llinol	Llygoden y maes
Pafin calchfaen	Rhedyn	Tafod y ddaear
Glaswelltir asidig	Adeiladau a gerddi	Cwtiad aur
Glaswelltir calchaidd	Ffeniau a mign	Y gornchwiglen
Glaswelltir niwtral	Rhuthrau d@r a mign	Ystlum pedol lleiaf
Corsleoedd	Merddwr agored	Britheg y gors
Afonydd a nentydd	Coedlannau conwydd (i adar)	Troellwr mawr
Cymunedau clogwyn, creigiau a sgri	Ogofâu	Dyfrgi
Coedlan (ffawydd brodorol, coedlan wlyb, onnen yr ucheldir, derw yr ucheldir a choed llydanddail cymysg yr iseldir)	Gwrychoedd hynafol a rhai sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau	Gwangen a herlyn
		Llygoden y D@r
		Crafanc y d@r

Rhywogaethau

Oherwydd prinder data am rywogaethau dim ond nifer cyfyngedig o GGRh sydd wedi eu paratoi yn ngham cyntaf y gwaith o gynhyrchu'r CGBLl. Mewn achosion lle'r ystyrir rhywogaeth yn bwysig ond lle bo dim ond ychydig iawn o wybodaeth ar gael, paratowyd Datganiad Rhywogaeth a fydd yn tynnu sylw at yr angen am wybodaeth bellach. Bydd Datganiadau Rhywogaeth yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Statws gyfredol
- Ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar y rhywogaeth
- Camau gweithredu cyfredol
- Cyfeiriad o ran cadwraeth

Hyd yma, paratowyd datganiadau ar gyfer: afuad nofiol fioled *Riccia huebeneriana* (llysiau'r afu) *Hygrocybe calyptriformis* (ffwng), madfall d@r gribog *Triturus cristatus*, *Hamatocaulis vernicosus*,

Geastrum fornicatum (ffwng) cen cerrig *Collema dichotomum*, ystlum Bechstein *Myotis bechsteinii* ac ystlum pedol fwyaf *Rhinolophus ferrumequinum*. Cesglir y rhain hefyd yng Nghyfrol 3 "Ein Byd Naturiol".

Yn y dyfodol, paratoir cynlluniau gweithredu rhywogaethau ar gyfer y rhywogaethau hynny na ellir eu gwarchod drwy reoli cynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt ac y mae eu bodolaeth a'u dosbarthiad yn ei gwneud yn anodd i fod ag amcanion a chamau gweithredu cyffredinol. Bydd datganiadau am rywogaethau yn y dyfodol yn cael eu paratoi ar gyfer y rhywogaethau hynny sydd i'w gweld yn bennaf o fewn cynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt ac y mae eu presenoldeb yn golygu bod angen triniaeth arbennig i'r cynefin(oedd) er mwyn diogelu eu poblogaethau yno; bydd y datganiadau yn crynhoi gofynion rheoli arbennig y rhywogaethau o fewn cynefin.

Pennod 4

CYNLLUNIAU GWEITHREDU A'R DULL O'U CYFLWYNO

COSTAU CYNLLUNIAU GWEITHREDU

Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd ar gyfer amser gwirfoddolwyr hefyd yn cynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gostau staff arferol ac fe'u cyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw. Fe'u seilir yn bennaf ar gyfraddau tâl Tir Gofal cyfredol o haf 2000. Dylid amcangyfrif costau arolygu a monitro ar gontract yn ôl £200 y person y dydd.

Bydd angen mwy o waith gan bob corff i gostio ei fewnbwn i'r cynllun. Y bwriad yw drwy ddarparu hyd yn oed y costau breision hyn, y bydd hyn yn annog partneriaid a phartneriaid potensial i'w hystyried, i wneud darpariaeth ar eu cyfer ac i fireinio'r manylion. I gynorthwyo'r broses hon, darperir y ffigurau isod er mwyn i bartneriaid gymharu costau tebygol yn fewnol gyda chostau wedi eu contractio:

Llafur cyffredinol mewnol	*£15-£20/yr/awr*
Llafur cyffredinol wedi ei gontractio	*£5-£10/yr/awr*
Hurio offer plws gweithredydd	*£12-£20/yr awr yn dibynnu ar y peiriant; byddai'n well gan weithredwyr offer gael diwrnod cyfan o waith*
Gosod ffensys i stoc yn fewnol	*£1.25/y metr*
Gosod ffens i stoc wedi ei gontractio	*£25-£30 bob rholyn 50metr*
Ffens pyst a rheiliau mewnol	*£4.70/y metr*
Ffens pyst a rheiliau wedi ei chontractio	*£5/y metr yn ychwanegol o gostau llafur*

Yn ddelfrydol byddai'n ddefnyddiol cynnwys crynodeb ar gyfer pob cynllun gweithredu, gan gyfrifo am holl gostau'r staff gydag amser a'r holl gostau refeniw, cyfalaf a chontractau. Er enghraifft, mae Wardeniaid y Parc Cenedlaethol yn monitro eu hamser yn erbyn pob gweithgaredd, fel y byddai'n bosibl mesur faint o amser a dreulir ar bob eitem cyfalaf. **Mae'n hanfodol fod pob partner a phartner posibl yn gwneud yr ymarferiad hwn ar eu rhan eu hunain yn ystod gweithredu'r CGBLl a bod cofnodion yn cael eu cadw o gostau wrth iddynt ddigwydd.**

Mae'r tabl isod yn ceisio cymharu'r costau rhwng pob cynllun gweithredu cynefin (CGC) a phob cynllun gweithredu rhywogaeth (CGRh). Gall hyn neu gall beidio â darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Er enghraifft, gall cyflwyno costau fel hyn dynnu sylw at y gwahaniaethau mewn costau rhwng gwahanol gynefinoedd a rhywogaethau, er byddai angen gwaith pellach yngl~n â faint o adnoddau staff a fyddai'n gysylltiedig â hyn hefyd.

Tabl 4.1
Costau arwyddol ar gyfer gweithredu camau gweithredu fel y rhestrwyd hwy mewn CGC/CGRh

CGRh	COSTAU CYFALAF A RESTRWYD YN Y CYNLLUN
Cyforgors a Gors	£500/ha yng Nghoedwig Glasfynydd £500 ym Mynydd Illtyd
Glaswelltir calchaidd	£450/ha
Glaswelltir niwtral	Costau staff yn unig
Glaswelltir asidig	£500/ha am 11.8ha
Porfa rhos	Costau staff yn unig
Rhostir gyda phrysg bychain	£150-£500/ha yn Wern, Tawe Uchaf; £200/dydd Prosiect Meithrinfa Mountainside £50 - £110 i drosi brithwaith glaswellt-rhos £200/dydd costau contract
Clogwyn, creigiau a sgri	£250k
Pafin calchfaen	£200/person/dydd yn ôl 2ha/dydd
Corsle	£20,000-£30.000/ha i greu corsle newydd
Afonydd a nentydd	£500/ha i reoli cynefin Wysg; £500/ha i reoli ardaloedd gyda'r glannau mewn mannau eraill; £3/m ffensio.
Coedlan	£115-£150/ha o dâl blynyddol, £1200 o gostau cyfalaf am reoli 100ha/y flwyddyn; £900/ha am blannu a £1200 o gostau cyfalaf am sefydlu 100ha/y flwyddyn; £1200/ha am adfer coedlan.
Morgrugyn y coed	£500/ha ar reoli yng Nghwm Giedd; £500/ha am reoli yng Nghwmtwrch Uchaf;
Britheg y gors	Costau staff yn unig
Siacar crafangog gwyn	Costau staff yn unig
Herlyn a gwangen	Costau staff yn unig
Y gylfinir	£200/ha/y flwyddyn am reoli yn Llyn Syfaddan a Mynydd Illtyd
Y gornchwiglen	Costau staff yn unig
Cwtiad aur	Costau staff yn unig
Troellwr mawr	£150/ha i adfer cynefin yng Nglasfynydd a Phant Mawr
Llygoden y maes	£6/m ar gyfer plannu gwrych
Dyfrgi	£500/ha
Llygoden y d@r	£200/person/dydd i wneud arolwg o'r minc, £200/person/dydd i wneud arolwg o lygoden y d@r
Ystlum pedol lleiaf	Costau staff yn unig
Tafod y ddaear	Costau staff yn unig

Dod o hyd i adnoddau

Cynlluniau ariannu

Bydd angen adnoddau ac ymrwymiad y tu hwnt i allu'r cyrff hynny a gynrychiolir yn y Gr@p Llywio i weithredu pob un o'r cynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau, yn ogystal â'r cynlluniau ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth a choladu a rheoli data. Felly mae'n hanfodol fod cymaint o bobl a chyrff â phosibl, sy'n byw ac yn gweithredu o fewn y Parc Cenedlaethol, yn teimlo fod y cynllun yn darparu teclyn gwaith y gallant ei ddefnyddio i ddatblygu'r prosiectau lleol sy'n cyflawni cynaladwyedd amgylcheddol.

Cyllid strwythurol Ewropeaidd

Mae sicrhau cynaladwyedd amgylcheddol, gwella cyfleoedd gwaith ac arallgyfeirio economïau lleol i gyd yn themâu cyllid strwythurol Ewropeaidd a fydd ar gael o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan wahanol raglenni (Amcan 1, Amcan 2, Amcan 3, cylchfa trawsnewid Amcan 5b). Mae pob un o'r rhaglenni hyn, yn ymdrin â rhan o'r Parc Cenedlaethol ac o dan bob rhaglen, mae gwahanol gynlluniau ariannu ar gael i ymdrin â gwahanol agweddau ar gynaladwyedd, cyflogaeth ac adfywiad economaidd. Crybwyllir yr amgylchedd, a bioamrywiaeth yn arbennig i raddau mwy a llai gan bob rhaglen. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn eich annog i gyfeirio at y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol hwn wrth ddatblygu argymhellion ar gyfer prosiectau i'w hariannu.

Mae Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewropeaidd (IEEP) wedi cyhoeddi coflen defnyddiol sy'n disgrifio'r gwahanol raglenni a mesurau ariannu Ewropeaidd. Mae'r cyhoeddiad "Cronfeydd Strwythurol yr UE 2000/2006 – Gwarchod Natur, Creu Swyddi", yn egluro agwedd yr Undeb Ewropeaidd at warchod natur, y gwahanol raglenni a mesurau cyllido, yn cynnig arweiniad yngl~n â defnyddio cyllid yr UE i warchod natur a chreu swyddi ac yn darparu amrediad o astudiaethau achos o brosiectau llwyddiannus. Gellir cael copïau oddi wrth IEEP, Dean Bradley House, 52 Horseferry Road, Llundain , SW1P 2AG, ffôn 020 7799 2244, e-bost central@ieeplondon.org.uk.

Cefnogaeth i fusnes a chyllid preifat (gweler hefyd Pennod 2 – Busnes a Bioamrywiaeth)

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gartref i ryw 32,000 o bobl a nifer llai o lawer o fusnesau. Ar lefel y DG, mae'r Llywodraeth wedi annog cwmnïau preifat yn dawel i ddod ymlaen a chyflwyno eu hunain fel "cefnogwyr" a fydd yn talu am roi cynllun gweithredu ar waith. Mae'n bosibl y gall hyn gael ei gyflawni neu mae'n bosibl na all gael ei gyflawni yn y Parc Cenedlaethol a gellid ymdrechu'n galed i drio perswadio busnes ynghylch rhagoriaeth cefnogi cynefin neu rywogaeth arbennig, am ychydig iawn o dâl yn ôl. Ond rydym yn barod i gael ein profi'n anghywir ac felly gobeithiwn berswadio grwpiau cymunedol lleol i ystyried defnyddio'r CGBLl i ddatblygu prosiectau partneriaeth lleol sy'n ymwneud â'r sectorau cyhoeddus a phreifat, er mwyn symud tuag at gyflawni defnydd cynaladwy o adnoddau naturiol y Parc.

Ymhellach, byddwn yn gwneud ein hymdrechion ein hunain i sicrhau cyfraniad y sector preifat a nawdd mewn strategaethau cefnogi tymor hir i weithredu'r cynllun hwn.

Datblygu eich prosiectau eich hun

Mae **Atodiad 5** yn dangos sut y gallai cynllun gweithredu a gyhoeddwyd yng Nghyfrol 3 "Ein Byd Naturiol" eich cynorthwyo chi i ddatblygu cynlluniau bioamrywiaeth yn eich ardal leol. Er enghraifft:

A oes unrhyw rai o'r rhywogaethau neu'r cynefinoedd a nodwyd yn "Ein Byd Naturiol" yn bodoli yn eich ardal chi? Hyd yn oed os nad oes cynlluniau gweithredu wedi eu paratoi ar gyfer yr holl gynefinoedd a rhywogaethau, gall yr archwiliad o gynefinoedd a rhywogaethau a gyhoeddir gyda'r gyfrol hon roi arweiniad i chi yma.

- A oes unrhyw gamau gweithredu y gallech eu gwneud yn lleol a fyddai nid yn unig yn cynorthwyo i weithredu'r cynllun hwn, ond hefyd yn gwella'r amgylchedd ac ansawdd bywyd yn eich ardal?
  - A oes prosiectau yn cael eu datblygu'n barod a fyddai'n elwa o gyfeirio at "Ein Byd Naturiol"?
  - Pa benodau ac adrannau yn "Ein Byd Naturiol" yn gyffredinol allai eich helpu i wella'r cyfiawnhad dros eich prosiect, er enghraifft i gyd-fynd â meini prawf amgylcheddol ar gyfer arian Treftadaeth y Loteri, arian y Comisiwn Ewropeaidd neu arian y Parc Cenedlaethol?

Pennod 5

CAMAU GWEITHREDU CYFFREDINOL A THARGEDAU

Camau gweithredu a thargedau sy'n gyffredin i'r holl gynlluniau gweithredu rhywogaethau a chynefinoedd a datganiadau rhywogaethau

I raddau sylweddol, bydd y camau generig hyn yn ffurfio rhan fawr o waith Gr@p Llywio CGBLl PCBB yn y dyfodol. Maent yn darparu'r sylfeini ar gyfer system rheoli ansawdd i sicrhau cysondeb ar draws y cynlluniau, yn ogystal â sicrhau bod yr holl gyrff sy'n gweithredu fel partneriaid yn gwneud yr addasiadau mewnol angenrheidiol i'w trefniadaeth i'w gwneud yn haws i gyflwyno'r cynlluniau gweithredu yn llwyddiannus. Bydd hyn yn dibynnu ar y dechrau ar ymrwymiad ac egni'r unigolion a gynrychiolir yn y Gr@p Llywio, yn ogystal â chydweithrediad eu cydweithwyr, hyd nes y bydd gwarchod bioamrywiaeth yn rhan benodol a hanfodol o holl sectorau gwaith y cyrff hyn.

Y CAMAU GWEITHREDU CYFFREDINOL A'R TARGEDAU AR GYFER ASIANTAETHAU ARWEINIOL

Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd am amser gwirfoddolwr, hefyd yn cynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gostau staff arferol ac fe'u cyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw.

Gweithredu arfaethedig	Cam Gweithredu	Arweiniad	Targed
Polisi a deddfwriaeth			
Sicrhau polisïau digonol i warchod rhywogaethau a chynefinoedd/ardaloedd cadwraeth yn y Cynllun Datblygu Unedol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, ar gyfer rhywogaethau a restrwyd mewn deddfwriaeth Ewropeaidd a'r DG, yn ogystal ag enghreifftiau prin yn genedlaethol yn rhanbarthol ac yn lleol.	PCBB, CCGC, YBG, GFGA, YG, CC, AA, FRCA (CCC), undebau amaethyddol, ac ati).	PCBB	Cwblhau CDU 2002/2003. Adolygu CRhPC 2005/2006.
Sicrhau bod yr holl bolisïau a'r camau gweithredu sy'n amcanu at hyrwyddo cynaladwyedd amgylcheddol (er enghraifft drwy Agenda Leol 21 a strategaethau cymunedol) yn defnyddio amcanion a chamau gweithredu CGBLl PCBB lle bo hynny'n berthnasol yn ystod eu gweithredu.	PCBB, CCGC, YBG, GFGA, YG, CC, AA, FRCA (CCC), undebau amaethyddol, ac ati).	PCBB	Yn parhau
Sicrhau bod pob partner yng Ngr@p Llywio CGBLl PCBB yn egluro ei rôl wrth weithredu'r CGBLl hwn.	Gr@p Llywio CGBLl, GFGA, YG, CC, AA, FRCA (CCC), undebau amaethyddol, ac ati).	Grwp Llywio CGBLl	Pob partner i gynhyrchu datganiad yn rhoi manylion yngl~n â'i rôl a'i gyfraniad a, lle bo hynny'n bosibl, neilltuo aelod(au) o'i staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu.
Sicrhau bod gofynion Tir Gofal sy'n diogelu ac yn gwella ansawdd safleoedd a chynefinoedd CGBLl PCBB yn cael eu gweithredu a'u hadolygu ac os oes angen, eu diwygio yng ngoleuni profiad.	CCGC, PCBB, YBG, YG, GFGA	CCGC	Trefnu cyfarfod blynyddol o gyrff cadwraeth i drafod gweithredu Tir Gofal yn lleol ac i dynnu sylw at faterion yngl~n â rheoli cynefinoedd a rhywogaethau.
Sicrhau yr ymdrinnir â gofynion ecolegol rhywogaethau a chynefinoedd CGBLl PCBB lle bo hynny'n berthnasol ym mhob cynllun datblygu a rheoli a pholisïau a gynhyrchir gan aelodau'r bartneriaeth.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau
Wrth roi caniatâd ar gyfer gweithrediadau fel tynnu d@r ac ati, sicrhau y rhoddir ystyriaeth wedi ei phwysoli i anghenion holl gynefinoedd a rhywogaethau CGBLl PCBB.	PCBB, AA, CCGC	PCBB, AA, CCGC	Erbyn 2001 sicrhau bod yr holl brosesau penderfynu yn sensitif i amcanion a gweithredu CGBLl. Sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei dderbyn gan yr holl ymgymerwyr statudol eraill y gallai eu gweithrediadau effeithio ar ffawna a fflora o fewn PCBB.
Sicrhau bod yr holl weithdrefnau caniatáu a thrwyddedu, gan gynnwys unrhyw arolwg o ganiatadau a thrwyddedau presennol, yn cydymffurfio â pholisïau y DG a'r UE a gofynion cyfreithiol yn ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth.	PCBB, CCGC, DCWW, AA	CCGCAA	Cwblhau'r Strategaeth Cadwraeth a'r protocol caniatáu ar gyfer SDdGA/yACA afon Wysg erbyn diwedd 2000. Cwblhau'r Arolwg o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd o Ganiatadau erbyn 2004. Sicrhau bod yr holl geisiadau newydd am ganiatadau a thrwyddedau yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol erbyn diwedd 2000.
Sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn effeithio ar gynefinoedd ac ardaloedd sy'n debygol o gefnogi un neu fwy o rywogaethau CGBLl PCBB yn cynnwys arolygon ecolegol llawn a mesurau lliniaru i ddiogelu a hyd yn oed i wella eu poblogaeth in situ.	CCGC, YBG, PCBB	PCBB	Drafftio a chynnwys arweiniad cynllunio atodol ar gyfer bioamrywiaeth erbyn diwedd 2001.
Diogelu a Rheoli a Chaffael Safleoedd			
Adolygu ffiniau presennol SDdGA a'u diwygio lle bo hynny'n angenrheidiol i sicrhau y gwarchodir yr ardaloedd cynrychioliadol gorau o'r cynefinoedd hyn a rhywogaethau wedi eu rhestru neu rai prin.	CCGC	CCGC	Yn gyflawn erbyn y flwyddyn 2010.
Sicrhau bod cyfres y SDdGA wedi ei chwblhau ar gyfer safleoedd sy'n cefnogi cynefinoedd a	CCGC	CCGC	Y gyfres yn gyflawn erbyn 2010. Hysbysu'r safleoedd

Gweithredu arfaethedig	Cam Gweithredu	Arweiniad	Targed
rhywogaethau CGBLl PCBB o fewn y Parc Cenedlaethol.			a'r cynefinoedd sydd o dan fygythiad cydnabyddedig erbyn 2004
Sicrhau cyflwr ffafriol yr holl ACA, AGA, GNC ac SDdGA drwy baratoi Cynlluniau Rheoli a darparu cyngor ynghylch rheoli a defnyddio cytundebau rheoli lle bo hynny'n briodol.	CCGC, tirfeddianwyr	CCGC	Paratoi Cynlluniau Rheoli ar gyfer yr holl SDdGA erbyn 2006. Darparu cyngor pendant ar reoli'r safleoedd hyn i'r holl berchnogion/deiliaid erbyn 2005.
Sicrhau bod rheoli tir sy'n berchen i/a reolir drwy bartneriaeth yn cael ei lywio at gwrdd ag amcanion perthnasol y cynllun gweithredu ac arfer da ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau dan sylw.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Gweler cynlluniau gweithredu.
Sicrhau lle trafodir cytundebau rheoli Tir Gofal a'r Parc Cenedlaethol, bod y gofynion penodol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau perthnasol CGBLl PCBB yn cael eu cynnwys yn y cytundeb.	PCBB, CCGC	PCBB, CCGC	Yn parhau
Sicrhau bod cymaint o safleoedd â phosibl sy'n cefnogi holl rywogaethau a chynefinoedd CGBLl PCBB yn cael eu cynnwys yn y gyfres o Safleoedd Bywyd Gwyllt o fewn y Parc Cenedlaethol.	Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt (PBG)	PBG	Sefydlu cyfres ymarferol o Safleoedd Bywyd Gwyllt o fewn PCBB erbyn diwedd 2005.
Rhwystro coedwigo yr holl safleoedd lle ceir cynefinoedd a rhywogaethau CGBLl PCBB.	PCBB, CC	CC	Comisiwn Coedwigaeth i sicrhau na fydd coedwigo yn digwydd ar y safleoedd hyn.
Sicrhau lle bynnag y ceir coed aeddfed a hen goed a choed wedi eu tocio, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn gr@p (er enghraifft mewn coedwig, parcdir, gwrych, ar lan afon), bod eu rheolaeth yn cynnwys mesurau sy'n dod â budd i infertebratau saprosylig, mwsoglau, cen cerrig a ffyngau.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau
Sicrhau lle bynnag y ceir mign, cors, pyllau a choedlan wlyb mewn brithwaith gyda chynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt CGBLl PCBB, eu bod yn cael eu gwarchod rhag gor-bori, mewnlenwi, gostwng y lefel trwythiad a throsi i ddefnyddiau eraill.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau
Sicrhau lle bynnag y ceir tarddellau a rhuthrau d@r cysylltiedig o fewn cynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt o fewn CGBLl PCBB, y nodir eu lleoliad a'u bod yn cael eu cynnal drwy reolaeth briodol.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau
Rheoli a Gwarchod Rhywogaethau			
Cynnal dosbarthiad cyfredol a lluosogrwydd rhywogaethau CGBLl PCBB o fewn y Parc Cenedlaethol	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Gweler cynlluniau gweithredu.
Ymgynghorol			
Sicrhau Swyddog Gweithredu CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	PCBB	Penodiad am dymor penodol o bum mlynedd, gyda'r sawl a benodir yn y swydd erbyn 2001/2002.
Cynhyrchu ffigurau arwynebedd o Dir Cymen a Thir Gofal i'w defnyddio i ddiweddaru archwiliadau cynefinoedd.	CCGC, GGB	CCGC	Erbyn 2006, sicrhau bod gweithdrefn safonol ar y gweill i ddarparu gwybodaeth wedi ei diweddaru ynghylch dosbarthiad a maint cynefinoedd.
Sefydlu cyfres o safleoedd arddangos rheoli arfer gorau ar gyfer holl gynefinoedd CGBLl PCBB.	PCBB, YBG, CCGC	PCBB	Nodi'r safleoedd erbyn 2002. Yn dilyn creu cynhwysedd o fewn PCBB, hyrwyddo safleoedd erbyn 2004.
Datblygu targedau mesuradwy ar gyfer newidiadau derbyniol ym maint cynefinoedd CGBLl PCBB.	Gr@p Llywio CGBLl	PCBB	Sicrhau y datblygir targedau mesuradwy erbyn 2002 a'u bod yn cael eu cynnwys o fewn adolygiadau dilynol o'r CDU a Chynllun y Parc.
Nodi perchnogion safleoedd sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau CGBLl PCBB, i dderbyn cyngor yngl~n â rheoli a chymorth grant trwy Tir Gofal a chynlluniau cymorth grant eraill.	PCBB, CCGC, YBG, PBG	PCBB	Cynhyrchu rhestr o'r holl safleoedd sy'n werth eu gwarchod a rhoi cymorth grant a chyngor yngl~n â rheoli i berchnogion erbyn 2006.

Gweithredu arfaethedig	Cam Gweithredu	Arweiniad	Targed
Ymchwil a Monitro yn y Dyfodol			
Llunio rhestr SWDd o'r holl gynefinoedd a rhywogaethau a pherchnogion safleoedd o fewn y PC. Sicrhau bod y rhestr hon yn cynnwys manylion ynghylch maint a chyflwr, er mwyn gallu cyflwyno adroddiadau. Sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i'r holl berchnogion safleoedd yr effeithir arnynt. Sicrhau bod y fethodoleg yn gyson gyda ac yn sail i ddulliau a gynhyrchir yn genedlaethol.	Gr@p Llywio CGBLl	GGB	Rhestr wedi ei diweddaru ac ar gael o 2005.
Sefydlu rhestr o'r holl ymchwil perthnasol, gan gynnwys llygredd atmosfferig a newid yn yr hinsawdd, sy'n effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd CGBLl PCBB.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Darparu rhestr bob dwy flynedd o gyhoeddiadau.
Cofnodi'r holl data arolygu a monitro gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth.	Gr@p Llywio CGBLl	GGB	Dechrau logio data i gefnogi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol erbyn 2002. Lle bo hynny'n angenrheidiol, anfonir data i gyfrannu at restrau coch.
Sicrhau bod yr holl fethodoleg arolygu a monitro a ddefnyddir yn briodol ar gyfer y dasg, yn gyson gyda ac yn sail i ddulliau a ddefnyddir yn genedlaethol.	Gr@p Llywio CGBLl, GGB	Gr@p Llywio CGBLl	I'w sefydlu.
Sefydlu tîm o arolygwyr rhywogaethau gwirfoddol i gynorthwyo gydag arolygon ac i fonitro safleoedd allweddol. Hyfforddi tîm, ei ddarparu gydag offer priodol a sefydlu blaenoriaethau lleol ar gyfer defnyddio'r gwirfoddolwyr hynny.	Gr@p Llywio CGBLl	YBG	Tîm o wirfoddolwyr i'w sefydlu, gyda hyfforddiant ar y gweill yn 2001/2002. Partneriaid i fod wedi cyfrannu'r holl ymdrech angenrheidiol i nodi a recriwtio gwirfoddolwyr erbyn hyn hefyd.
Adolygu cyfleoedd a phrosesau ar gyfer ehangu maint cynefinoedd CGBLl PCBB, yn arbennig er mwyn ehangu a chysylltu lleiniau sy'n weddill.	Gr@p Llywio CGBLl	PCBB	Erbyn diwedd 2003, galw gweithgor ynghyd i ddatblygu'r gwaith o adfer cynefinoedd a thargedau ar gyfer adloniant.
Mabwysiadu a gweithredu strategaeth monitro i ddarganfod newidiadau a maint a chyflwr cynefin.	AA, CCGC, PCBB, GGB	GGB	Chwilio am strategaeth neu ddylunio strategaeth erbyn 2003; dechrau ei gweithredu erbyn 2004.
Gosod dyddiadau arolygu ar gyfer yr holl gynlluniau gweithredu a'r datganiadau, yn seiliedig ar wybodaeth sy'n ymddangos yngl~n â statws, dosbarthiad ac ati, cynefinoedd a rhywogaethau CGBLl PCBB.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Heb eu gosod eto.
Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd			
Rhoi adroddiad yngl~n â chamau gweithredu a chyfraniadau i Gr@p Bioamrywiaeth Cymru ac i grwpiau llywio CGC/CGRh CGBLl y DG.	Gr@p Llywio CGBLl	GGB	Cwrdd â cylchoedd adrodd Cymru a'r DG.
Rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r holl gamau gweithredu. Tynnu sylw at rywogaethau a chynefinoedd eraill sy'n elwa o fesurau cadwraeth yn y cynlluniau a'r datganiadau hyn. Defnyddio apêl gyhoeddus y rhywogaethau hynny i gyfathrebu neu i gyfleu cyflwr cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig.	Gr@p Llywio CGBLl	PCBB	Yn parhau
Sicrhau sylw gan y cyfryngau i'r modd y gweithredir gan y cyrff sy'n bartneriaid drwy gyfrwng llythyrau newyddion, adroddiadau a datganiadau newyddion.	Gr@p Llywio CGBLl	Gr@p Llywio CGBLl	Ar ôl sicrhau Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, cynnwys gwaith cyhoeddusrwydd yn eu cylch gorchwyl.

YR ATODIADAU

Atodiad 1:Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog								
Cynefinoedd	**Blaenoriaeth ACA/DG/Cymru**	**Arwahanrwydd Lleol**	**Pwysig ar gyfer CGB 'Spp' y DG**	**Dirywiad Lleol ar hyn o bryd**	**% o Gynefin y DG yn Ardal y CGB lleol**	**Bygythiad Lleol**	**Prin yn lleol**	**Sgôr Gwerthuso**
Porfa Rhos	2	1	1	2	1	2	1	10
Gorgors	2	0	1	2	0	2	2	9
Rhostir gyda Phrysg Bychain	2	1	1	2	0	2	1	9
Gwrychoedd Hynafol a Rhai Cyfoethog mewn Rhywogaethau	1	1	1	2	0	1	2	8
Cymunedau Silffoedd	2	1	1	1	1	1	1	8
Ffen a Mign	2	0	1	2	0	1	2	8
Pafin Calchfaen	2	0	1	2	0	1	2	8
Glaswelltir Niwtral	1	0	1	2	0	2	2	8
Glaswelltir Calchaidd yr Iseldir a'r Ucheldir	2	1	0	2	0	1	2	8
Ffawydd Brodorol	1	1	1	1	0	1	2	7
Cyforgors	2	0	1	1	0	1	2	7
Corsleoedd	1	0	1	2	0	1	2	7
Ynn yr Ucheldir	1	1	1	1	0	1	2	7
Prysg	0	1	1	2	0	2	1	7
Ymylon Caeau Grawnfwydydd	1	0	1	1	0	2	2	7
Rhuthrau D@r a Tharddellau Twffa	2	0	0	2	0	1	2	7
Ogofâu	0	1	1	1	2	1	0	6
Deri'r Ucheldir	2	1	1	0	0	1	1	6
Coedlannau Gwlyb	2	0	1	1	0	1	1	6
Llynnoedd a Phyllau	2	1	1	1	0	1	0	6
Afonydd a Nentydd	2	1	1	1	0	1	0	6
Llydanddail Cymysg yr Iseldir	0	1	1	1	0	1	1	5
Cynefinoedd Llinol / Ymylon ffyrdd ac ati	0	0	1	1	0	1	1	4
Glaswelltir Asidig yr Iseldir a'r Ucheldir	1	1	1	0	0	1	0	4

Atodiad 1:Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog								
Rhedyn	0	1	1	0	0	1	0	3
Adeiladau a Gerddi	0	1	1	0	0	0	0	2
Coedlan Gonwydd	0	1	1	0	0	0	0	2

Atodiad 2: Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog			
Rhywogaeth y rhoddir Blaenoriaeth iddi			
Enw Gwyddonol	**Enw Cyffredin**	**Statws Cofnod**	**Dosbarthiad a Gwybodaeth Arall**
Acrocephalus paludicola	Telor y D@r	Cyfredol	Aderyn mudol sydd o dan fygythiad yn fyd-eang sydd wedi ei gofnodi wrth Lyn Syfaddan.
Alauda arvensis	Ehedydd	Cyfredol Cyfredol	Yn byw ac yn magu yma, mae'r boblogaeth gyfagos i'r gogledd o ddyffryn Wysg o bwysigrwydd yn y DG
Alosa alosa	Herlyn	Anhysbys	Tybir ei fod yn bresennol mewn niferoedd bychain ar afon Wysg ond nid oes unrhyw ddata ar gael.
Alosa fallax	Gwangen	Cyfredol	Ystyrir bod ganddo boblogaeth fagu gynaladwy yn rhan isaf afon Wysg ac mae'n debyg ei fod yn bodoli mewn niferoedd bychain mor belled i fyny'r afon â Chrughywel.
Arvicola terrestris	Llygoden y D@r	Cyfredol	Fe'i darganfuwyd ar Gamlas Brycheiniog a Mynwy ac ar afon Wysg.
Austropotamobius pallipes	Siacar crafangog gwyn d@r croyw	Cyfredol	Fe'i darganfuwyd ar afonydd Gwy a Wysg a llednentydd o amgylch Llangatwg a'r Gelli Gandryll
Barbastella barbastellus	Ystlum Barbastelle	Hanesyddol	Un cofnod
Botaurus stellaris	Aderyn y bwn	Cyfredol	Mudo yn ystod y gaeaf; dim data
Caprimulgus europeaus	Troellwr mawr	Cyfredol	I'w weld mewn dau safle yn y Parc Cenedlaethol
Carduelis cannabina	Llinos	Cyfredol	Byw a magu yma, dim data ar gael
Coenagrion mercuriale	Mursen y de	Cyfredol	Mae angen ailgadarnhau un cofnod o 1985.
Collema dichotomum	Cen 'River Jelly'	Cyfredol	Cofnod diweddar o afon Gwy yn y Gelli Gandryll 1999. Nid yw cofnodion o Afon Wysg wedi eu hail-gadarnhau
Emberiza schoeniculus	Bras y Cyrs	Cyfredol	Byw ac yn magu yn gyffredin yn ucheldiroedd Gwent ac yn gysylltiedig â rhuthrau d@r gwlyb
Eurodryas aurinia	Britheg y Gors	Cyfredol	Fe'i canfyddir ar hyd y ffin deheuol ac yng ngorllewin y Parc. Cofnodwyd tua 14 o gytrefi yn y 20 o flynyddoedd diwethaf gan gynnwys safle mawr a ddarganfuwyd yn 1999 ym Mhenderyn.
Formica rufa	Morgrugyn y coed	Cyfredol	Safleoedd yng Nghoedwig Giedd a St. Mary's Vale ar Ben y Fal.
Hamatocaulis vernicosus	Mwsogl pluog	Cyfredol	Fe'i cofnodwyd yn Nant Sere. Mae'n debyg ei fod wedi ei dan-gofnodi.
Hirudo medicinalis	Gele meddyginiaethol	Hanesyddol	Fe'i canfuwyd yn flaenorol yn Llyn Syfaddan ond mae angen cadarnhau hyn.

Atodiad 2: Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog			
Hydrelia sylvata	Gwyfyn brith	Hanesyddol	Dim data ar gael
Hygrocybe calyptraeformis	'Meadowcap' pinc	Cyfredol	Cofnodwyd o 3 safle. Mae'n debyg ei fod yn gyffredin mewn glaswelltir Festuca heb ei wella gan gynnwys hen lawntiau
Lepus europeaus	Ysgyfarnog	Cyfredol	Dim data ar gael ond yn bresennol ar draws y Parc Cenedlaethol a chredir ei fod yn dirywio.
Lipsothrix nervosa	Pryf teiliwr	Hanesyddol	Presennol mewn nifer o safleoedd gan gynnwys Cwm Sere ym 1976
Lutra lutra	Dyfrgi Ewropeaidd	Cyfredol	Fe'i canfyddir drwy bob rhan o'r Parc Cenedlaethol
Microglossum olivaceum	Tafod y Ddaear	Cyfredol	Fe'i cofnodwyd o 3 safle ac mae'n debyg ei fod yn gyffredin mewn glaswelltir calchfaen byr
Muscardinus avellanarius	Pathew	Cyfredol	Y boblogaeth fwyaf yn yr ardal o'r Gelli Gandryll i Dalgarth. Poblogaethau eraill yng Nghoed-y-Cerrig ac yng ngorllewin y Parc Cenedlaethol.
Musicapa striata	Gwibedog Brith	Cyfredol	Magwr mudol; dim data ar gael.
Myotis bechsteinii	Ystlum Bechstein	Cyfredol	Un cofnod wedi ei gadarnhau ym 1995
Mythimna turca	'Double Line'	Hanesyddol	Dim data ar gael.
Noctua orbana	Isadain felen	Anhysbys	Dim data ar gael.
Passer montanus	Golfan y Mynydd	Cyfredol	Un sy'n magu yn yr ardal yn lleol iawn ac yn dirywio. Tua 30 o barau ym Mrycheiniog. Dim data penodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol
Pechipogon strigilata	'Fan Foot' Cyffredin	Anhysbys	Dim data ar gael.
Pilularia globulifera	Pelenllys	Cyfredol	Poblogaeth wedi ei chofnodi ger Hay Bluff GM ym 1988
Pipistrellus pipistrellus	Ystlum Pipistrelle	Cyfredol	Cyffredin drwy'r Parc. Daw'r niferoedd mwyaf o gofnodion o ardal Dyffryn Wysg.
Psilocephala rustica	Pryf stilletto	Anhysbys	Dim data ar gael.
Pyrrhula pyrrhula	Coch y berllan	Cyfredol	Byw a magu yma. Dim data ar gael.
Rhinolophus ferrumequinum	Ystlum Pedol Mwyaf	Cyfredol	I'w weld yng Ngharreg Cennen gyda 2 gofnod arall heb eu cadarnhau.
Rhinolophus hipposideros	Ystlum Pedol Lleiaf	Cyfredol	Poblogaeth fawr yn Nyffryn Wysg lle ceir safleoedd magu a gaeaf-gysgu sy'n bwysig yn rhyngwladol. Fe'i gwelir hefyd yn ardal Dyffryn Wysg y Parc Cenedlaethol ac mewn ogofâu yng ngorllewin y Parc.
Riccia huebeneriana	Afuad nofiol fioled	Cyfredol	SDdGA cronfa dd@r Talybont

	Atodiad 2:	**Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**	
Sorbus leyana	Cerddinen Darren Fach	Cyfredol	Poblogaeth endemig leol ym Mhenmoelallt a Darren Fach.
Tetrao tetrix	Grugiar Ddu	Cyfredol	Credid ei fod wedi diflannu o'r Parc Cenedlaethol er y ceir adroddiadau achlysurol am rai wedi ei gweld.
Thereva lunulata	Pryf stilettto	Anhysbys	Cofnodwyd ar afon Wysg yn Llanwenarth ac ar afon Mynwy
Trichomanes speciosum	Rhedynen Wrychog	Cyfredol	'Gametophyte' yn unig a ganfuwyd.
Triturus cristatus	Madfall Dd@r Gribog	Cyfredol	Un cofnod sicr ym 1993
Turdus philomenos	Bronfraith	Cyfredol	Byw a magu yma. Dim data ar gael.
Turdus philomenos	Bronfraith	Cyfredol	Byw a magu yma. Dim data ar gael.
Rhywogaethau sy'n peri pryder o ran Cadwraeth			
Accipiter gentilis	Gwalch Marth	Cyfredol	Magu yn y Parc mewn niferoedd cynyddol.
Accipter nisus	Gwalch Glas	Cyfredol	Dim data ar gael ond yn gyffredin.
Acrocephalus schoenobanus	Telor yr Hesg	Cyfredol	Aderyn mudol sy'n magu. Safle mwyaf wrth Lyn Syfaddan gyda thua 12 o barau.
Acrocephalus scirpaceus	Telor y Cyrs	Cyfredol	Ail boblogaeth fagu fwyaf yng Nhymru wrth Lyn Syfaddan.
Adscita statices	'The Forester'	Anhysbys	Dim data ar gael.
Alcedo atthis	Glas y Dorlan	Cyfredol	Cyffredin drwy'r Parc. Mae'n debyg fod 10-20 o barau ar hyd afon Wysg ond nid oes dim data ar gael ar gyfer ardaloedd eraill.
Anas acuta	Hwyaden Lostfain	Cyfredol	Mynd drwy'r ardal yn rheolaidd wrth fudo ac ymwelydd yn y gaeaf yn arbennig i Lyn Syfaddan mewn niferoedd bychain (5-12 mewn blynyddoedd diweddar). Anaml y gwelir ef yn mynd heibio wrth fudo mewn mannau eraill.
Anas clypeata	Hwyaden Lydanbig	Cyfredol	Mynd drwy'r ardal yn rheolaidd wrth fudo ac ymwelydd yn y gaeaf yn arbennig i Lyn Syfaddan gyda 20-50 o adar wedi eu gweld mewn blynyddoedd diweddar. Mae wedi dangos dirywiad wrth Gronfa Dd@r Talybont ond nid wrth Lyn Syfaddan..
Anas penelope	Chwiwell	Cyfredol	Mynd drwy'r ardal yn rheolaidd wrth fudo ac ymwelydd yn y gaeaf gyda niferoedd yn amrywio. Ni welwyd unrhyw ddirywiad gwirioneddol ers yr 1970au.
Anas platyrynchos	Hwyaden Wyllt	Cyfredol	Cyffredin ac eang. Byw a magu yma.
Anthus pratensis	Corhedydd y Waun	Cyfredol	Dal yn lluosog yn yr ucheldiroedd ond mae bron â diflannu o ffermdir yr iseldir.

	Atodiad 2:	**Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**	
Anthus trivialis	Corhedydd y Coed	Cyfredol	Byw a magu yma. Dim data ar gael.
Argynnis pavia	Brith Arianresog	Cyfredol	Cofnod o Sir Gaerfyrddin
Asio otus	Tylluan Gorniog	Cyfredol	Magu yng Ngwent mewn rhan o'r Parc. O bosibl mae wedi ei dan-gofnodi o weddill y Parc.
Aythya ferina	Hwyaden Bengoch	Cyfredol	Poblogaethau gaeafu pwysig yn Llyn Syfaddan a chronfa Dd@r Talybont.
Aythya fuligula	Hwyaden Gopog	Cyfredol	Byw a magu yma mewn niferoedd bychain. Ymwelydd gaeaf i Lyn Syfaddan a chronfa Dd@r Talybont.
Boloria selene	Brith Perlog Bach	Cyfredol	Presennol ond mae angen mwy o ddata.
Brachydontium trichodes	Mwsogl	Cyfredol	Y cofnod diweddaraf islaw Bannau Brycheiniog – y Mynydd Du ym 1996.
Bucephala clangula	Hwyaden Lygad Aur	Cyfredol	Mudo yn ystod y gaeaf. Uchafswm y nifer a gofnodwyd yw 50 yn Llyn Syfaddan ym 1998/9.
Bufo bufo	Llyffant Du	Anhysbys	Presennol yn y Parc ond mae angen mwy o ddata.
Buteo buteo	Bwncath	Cyfredol	Poblogaeth fawr iawn ond dim data am niferoedd ar gael.
Calidris alpina	Pibydd y Mawn	Cyfredol	1-2 bâr yn magu'n afreolaidd ym Mhwll Gwy-rhoc.
Campylostelium saxicole	Mwsogl	Cyfredol	Dim data ar gael.
Capreolus capreolus	Iwrch	Cyfredol	Presennol yn yr ardal o Ddyffryn Crai i'r gorllewin i Myddfai/Llanymddyfri a Halfway ers 1995
Carduelis carduelis	Nico	Cyfredol	I'w weld yn gyffredin ond dim data am niferoedd ar gael.
Carduelis cloris	Llinos Werdd	Cyfredol	I'w weld yn gyffredin ond yn lleol iawn. Dim data am niferoedd ar gael.
Carduelis flammea	Llinos Bengoch	Cyfredol	Un sy'n magu mewn niferoedd sy'n gostwng.
Carduelis spinus	Pila Gwyrdd	Cyfredol	Magu'n rheolaidd yn y rhan fwyaf o flociau conwydd gyda heidiau o 200 + mewn coedlannau gwern.
Carum verticillatum	Carwas Troellog	Cyfredol	Planhigyn porfa rhos wedi ei ddosbarthu ar draws yr ymyl deheuol a'r ardaloedd gorllewinol.
Certhia familiaris	Dringwr Bach	Cyfredol	Aderyn sy'n byw yma ac a welir yn gyffredin. Dim data ar gael.
Cervus elaphus	Carw Coch	Cyfredol	Cynyddu yn yr ardal i'r gorllewin o Libanus i Glasfynydd ers 1992.
Charadrius dubius	Cwtiad Torgoch Bach	Cyfredol	Ychydig o barau yn y Parc.
Charadrius marinellus	Hutan y Mynydd	Cyfredol	Safle pwysig ar y Mynydd Du i fynd drwyddo ar ei daith.

Atodiad 2:	Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog		
Cinclus cinclus	Bronwen y D@r	Cyfredol	Byw a magu yma. Credir ei fod wedi dirywio mewn niferoedd yn ddiweddar.
Circus cyaneus	Bod Tinwen	Cyfredol	Tua tri neu bedwar o adar yn gaeafu. Un pâr yn magu weithiau
Coccothraustes coccothraustes	Gylfinbraff	Cyfredol	Byw mewn niferoedd bychain yn nwyrain a gorllewin y Parc; wedi magu yng Nghoedwigoedd Penyfal.
Columba oenas	Colomen Wyllt	Cyfredol	Anghyffredin ac yn dirywio mewn ardaloedd lle amaethir defaid. Cyffredin a sefydlog mewn ardaloedd o ffermdir cymysg.
Cossus cossus	Gwyfyn Gafr	Anhysbys	Dim data ar gael.
Cottus gobio	Crothell	Cyfredol	Cyffredin ac eang drwy holl ddalgylchoedd yr afonydd.
Cucullia asteris	Briglwydd	Anhysbys	Un cofnod o Sir Forgannwg.
Cupido minimus	Glesyn Bach	Anhysbys	O bosib yn gysylltiedig â chalchfaen yn Sir Gaerfyrddin.
Cygnus bewickii	Alarch Bewick	Cyfredol	Ymwelydd afreolaidd a phrin yn ystod y gaeaf a welir weithiau ar Lyn Syfaddan.
Cygnus cygnus	Alarch y Gogledd	Cyfredol	Ymwelydd afreolaidd yn y gaeaf; gwelwyd niferoedd bychain ar Lyn Syfaddan a Chronfa Dd@r Talybont.
Cygnus olor	Alarch Dof	Cyfredol	Poblogaeth sy'n magu ac yn gaeafu yn Nyffrynnoedd Wysg a Gwy. Mae Llyn Syfaddan yn safle fagu, bwrw plu a gaeafu pwysig.
Dama dama	Hydd Brith	Cyfredol	Byw yn ardal Ffairfach, fe'i cofnodwyd weithiau o ardal y Gelli Gandryll i Dalgarth.
Delichon urbica	Gwennol y Bondo	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n magu wrth fudo.
Dendrocopos major	Cnocell Fraith Fwyaf	Cyfredol	I'w weld yn byw yma'n gyffredin.
Dendrocopos minor	Cnocell Fraith Leiaf	Cyfredol	Magu mewn saith safle ym Mrycheiniog, credir ei fod yn dirywio.
Emberiza citrinella	Bras Melyn	Cyfredol	Mae'n magu ac yn byw yma. Poblogaeth sy'n bwysig yn genedlaethol. Credir ei fod yn dirywio.
Ephemrum sessile	Mwsogl	Cyfredol	Dim data ar gael.
Erinaceous europaeus	Draenog	Cyfredol	Dim data ar gael ond credir ei fod yn dirywio.
Falco columbarius	Cudyll Bach	Cyfredol	Mae wyth neu naw o barau yn byw ym Mrycheiniog. Yn bresennol ar y Mynyddoedd Duon a'r Mynydd Du.
Falco peregrinus	Hebog Tramor	Cyfredol	Mae'n byw ac yn magu yma. Mae wedi cynyddu ledled y Parc ac mae'n dal i gael ei fygwth gan bobl yn ei erlid.

Atodiad 2:	Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog		
Falco subbuteo	Hebog yr Ehedydd	Cyfredol	Un neu ddau o barau yn nythu yn Nyffryn Wysg.
Falco tinnunculus	Cudyll Coch	Cyfredol	13 o barau ym Mrycheiniog a 5-10 o barau yn ardal Gwent y Parc.
Ficedula hyupoleuca	Gwybedog Brith	Cyfredol	Byw ac yn magu yma; wedi ei fonitro mewn nifer o safleoedd.
Fissidens celticus	Mwsogl	Cyfredol	Dim data ar gael.
Fringilla montifringilla	Pinc y Mynydd	Cyfredol	Ymwelydd amrywiol yn ystod y gaeaf. Mae'r boblogaeth fwyaf y gwyddys amdani ryw 600 o amgylch Llanofer.
Gallinago gallinago	Gïach	Cyfredol	Byw ac yn magu yma, poblogaeth sy'n bwysig yn genedlaethol o 100+ o barau yng Ngwent. Fe'i canfyddir hefyd yn ardaloedd Brycheiniog a Sir Gaerfyrddin y Parc. Mae'r boblogaeth a gofnodwyd yn PCBB oddeutu 50 o barau.
Genista pilosa	Aurfanadl Blewog	Cyfredol	GNG Ogof Ffynnon Du
Habiodon pusillus	Mwsogl	Cyfredol	Dim data ar gael.
Hemaris fuciforma	Gwyfyn 'Broad Bordered Bee Hawk'	Anhysbys	Dim data ar gael.
Hirundo rustica	Gwennol	Cyfredol	Mae'n magu yma wrth fudo, dim data ar gael.
Hymenophyllum tunbrigense	RhedynachTeneuwe	Cyfredol	Cofnodwyd hwn yn ardal y Sgydau.
Hymenophyllum wilsonii	RhedynachTeneuwe Wilson	Cyfredol	Cofnodwyd hwn yn ardal y Sgydau.
Lagopus lagopus	Grugiar	Cyfredol	Mae'n byw ac yn magu yma. Un o'r poblogaethau mwyaf deheuol yng Nghymru, gwyddys ei fod yn dirywio.
Lampetra fluviatilis	Lampri'r Afon	Cyfredol	Y mae'n bresennol ond nid oes data ar gael. Comisiynwyd arolwg o rywogaethau'r lamprïod gan GCGC.
Lampetra planeri	Lampri'r Nant	Cyfredol	Cyffredin ond does dim data ar gael. Comisiynwyd arolwg o rywogaethau'r lamprïod gan GCGC.
Lejeuna lamacerina	Llysiau'r Afu	Cyfredol	Dim data ar gael.
Locustella naevia	Troellwr Bach	Cyfredol	Mae'n aderyn prin sy'n magu ac yn mudo. Dim data ar gael.
Loxia curvirostra	Gylfin Groes	Cyfredol	Fe'i canfyddir yn yr holl flociau conwydd mawr yn ardal y Parc.
Lymnocryptes minimus	Gïach Fach	Cyfredol	Ymwelydd yn ystod y gaeaf ac yn mynd drwodd wrth fudo. Niferoedd yn anhysbys.
Martes martes	Bele'r Coed	Hanesyddol	Dim cofnodion pendant. Fe'i gwelwyd yn ddiweddar yn Blorenge ond nid yw hyn wedi ei gadarnhau.

	Atodiad 2:	**Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**	
Meles meles	Mochyn Daear	Cyfredol	Fe'i canfyddir drwy gydol y Parc ac mae'n ffafrio rhywfaint ar ochr ogleddol sgarpdir y mynyddoedd.
Mergus merganser	Hwyaden Ddanheddog	Cyfredol	Mae'n byw ac yn magu yma. Un o'r cofnodion magu mwyaf deheuol yn Mhrydain.
Mergus serrator	Hwyaden Frongoch	Cyfredol	Dwy safle yn Ardal Brycheiniog y Parc.
Micromys minutus	Llygoden y Cynhaeaf	Hanesyddol	Dim cofnodion diweddar.
Milvus milvus	Barcud	Cyfredol	Magu mewn niferoedd cynyddol drwy holl rannau gorllewinol a chanol y Parc. Fe'i cofnodwyd yn fwy diweddar hefyd o ddwyrain y Parc.
Motacilla alba	Siglen Fraith	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n byw ac yn magu yma sy'n bresennol mewn trefi a phentrefi. Mae Llyn Syfaddan yn safle clwydo pwysig yn lleol o ddiwedd yr haf i'r gwanwyn.
Motacilla cinerea	Siglen Lwyd	Cyfredol	Cyffredin ar afonydd yr ucheldir, yn dirywio ar hyd Afon Wysg ac afonydd eraill yr iseldir.
Motacilla flava	Siglen Felen	Cyfredol	Amcangyfrifir bod 11-12 o barau yn y Parc. Clwyd diwedd yr haf bwysig yn Llyn Syfaddan.
Mustela erminea	Carlwm	Cyfredol	Dim data ar gael Mae'n bosibl ei fod yn dirywio.
Mustela nivalis	Gwenci	Cyfredol	Dim data ar gael.
Mustela putorius	Ffwlbart	Cyfredol	Eang ond wedi ei dan-gofnodi'n sylweddol.
Myotis brandtii	Ystlum Brandt	Cyfredol	Ogofâu gaeaf-gysgu sy'n bwysig yn genedlaethol yn Foel Fraith.
Myotis daubentonii	Ystlum Daubenton	Cyfredol	Poblogaethau pwysig yn nalgylchoedd Wysg a Gwy
Myotis mystacinus	Ystlum Blewog	Cyfredol	Ogofâu gaeaf-gysgu sy'n bwysig yn genedlaethol yn Foel Fraith.
Myotis nattereri	Ystlum Natterer	Cyfredol	Ogofâu gaeaf-gysgu yng Nghaerfyrddin.
Neomys fodiens	Chwistlen Dd@r	Cyfredol	Data cyfyngedig ar gael. Presennol yn ardal y Parc.
Niphargus fontanus	Cramennog D@r croyw	Cyfredol	Ogofâu Nant Glais
Numenius arquata	Y Gylfinir	Cyfredol	Aderyn sy'n byw ac yn magu yma mewn niferoedd bychain, credir ei fod wedi dirywio'n arswydus.
Oenanthe oenanthe	Tinwen y Garn	Cyfredol	Aderyn sy'n magu ac yn mudo yn yr ucheldir yn gyffredinol. Mae'n cynyddu ar y Mynydd Du.
Operypha paraxanthoides	Cen Cerrig	Cyfredol	Dim data ar gael.
Orthotrichum sprucei	Mwsogl	Cyfredol	Dim data ar gael.
Parus ater	Titw Penddu	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n byw yma. Dim data am gyfansymiau ar gael.

Atodiad 2: Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog			
Parus caeruleus	Titw Tomos Las	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n byw yma. Dim data ar gael.
Parus major	Titw Mawr	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n byw yma. Dim data ar gael.
Parus montanus	Titw'r Helyg	Cyfredol	Byw ac yn magu yma, yn dirywio mewn rhai ardaloedd.
Parus palustris	Titw'r Wern	Cyfredol	Yn byw ac yn magu yma.
Pernis apivorus	Bod y Mêl	Cyfredol	Niferoedd o adar mudo yn yr haf yn anhysbys.
Petromyzon marinus	Lampri'r Môr	Cyfredol	Presennol ym mhrif Afon Wysg ond nid oes data ar gael. Comisiynwyd arolwg o rywogaethau lamprïod gan GCGC.
Phoenicurus ochruros	Tingoch Du	Cyfredol	Dim data ar gael.
Phoenicurus phoenicurus	Tingoch	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n magu yn ardaloedd yr ucheldir. Dim data am niferoedd ar gael.
Phylloscopus collybita	Siff-saff	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n mudo yn yr haf.
Phylloscopus sibilatrix	Telor y Coed	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n mudo yn yr haf. Dim data ar gael.
Phylloscopus trochilus	Telor y Coed	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n mudo yn yr haf. Dim data ar gael.
Picus viridis	Cnocell Werdd	Anhysbys	Cyffredin ac eang. Mae'n dirywio mewn ardaloedd lle ffermir defaid yn ddwys.
Plagochila punctata	Llysiau'r Afu	Cyfredol	Dim data ar gael.
Plagochila spinulosa	Llysiau'r Afu	Cyfredol	Dim data ar gael.
Plecotus auritus	Ystlum Brown Clustiau Hir	Cyfredol	Cyffredin ac eang.
Pluvialis apricaria	Cwtiad Aur	Cyfredol	Aderyn sy'n magu ac yn mudo ar y Mynydd Du, tua 10 o barau. Dim cofnodion diweddar o'r Mynyddoedd Duon.
Pohlia muyldermansii	Mwsogl	Cyfredol	Dim data ar gael.
Porhomma resenhaueri	Pryf Cop troglobitig	Anhysbys	Ogofâu Nantglais yn ddim ond yn un o ddau safle a gofnodwyd ym Mhrydain.
Porzana porzana	Rhegen Fraith	Cyfredol	Magu'n achlysurol iawn. Fe'i cofnodwyd ddiwethaf ger Aberhonddu ym 1993. Mae hefyd yn aderyn mudol ac yn ymwelydd yn y gaeaf.
Proasellus cavaticus	Pryf Lludw Dyfrol	Cyfredol	Ogofâu Nantglais.
Prunella modularis	Llwyd y Berth	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n byw yma. Dim data am niferoedd ar gael.
Rallus aquaticus	Rhegen y D@r	Cyfredol	Ymwelydd yn ystod y gaeaf. Mae'n magu hefyd ar Fynydd Illtyd a Llyn Syfaddan.
Rana temporaria	Llyffant	Anhysbys	Mae'n bresennol yn y Parc. Dim data ar gael.
Ranunculus hederaceus	Crafanc y Frân Eiddewddail	Cyfredol	Dim data ar gael.
Regulus regulus	Dryw Eurben	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n byw yma. Dim data am niferoedd ar gael.

	Atodiad 2:	**Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**	
Riparia riparia	Gwennol y Glennydd	Cyfredol	Aderyn sy'n magu ac yn mudo a ganfyddir ar hyd afonydd Wysg a Gwy. Poblogaeth sylweddol yn clwydo wrth Lyn Syfaddan.
Salmo salar	Eog yr Iwerydd	Cyfredol	Dim data ar gael.
Saxicola rubetra	Crec yr Eithin	Cyfredol	Aderyn sy'n magu ac yn mudo ar ymyl yr ucheldir. Credir ei fod wedi dirywio.
Saxicola torquata	Clochdar y Cerrig	Cyfredol	Magu'n afreolaidd o amgylch Craig Cerrig Gleisiad, Ståd Cnewr a Mynydd Illtyd. Ceir adar yn gaeafu'n afreolaidd hefyd yng Nglasfynydd.
Scolopax rusticola	Cyffylog	Cyfredol	Mae'n aderyn sy'n byw ac yn magu yma mewn niferoedd sy'n dirywio ac ymwelydd yn ystod y gaeaf.
Shrankia taenialis	'White-lined Snout'	Anhysbys	Dim data ar gael.
Sitta europea	Delor y Cnau	Cyfredol	Aderyn cyffredin sy'n byw mewn coedlannau llydanddail yn arbennig coedlan dderi.
Sorbus anglica	Cerddinen Wen	Cyfredol	GNG Craig y Cilau
Sorex araneus	Chwistlen	Cyfredol	Dim data ar gael.
Sorex minutus	Chwistlen Pygmi	Cyfredol	Presennol yn ardal Sir Gaerfyrddin y Parc.
Strix aluco	Tylluan Frech	Cyfredol	Mae'n aderyn cyffredin sy'n byw yma. Dim data ar gael.
Sturnus vulgaris	Drudwen	Cyfredol	Aderyn sy'n magu mewn niferoedd sy'n dirywio mewn ardaloedd ffermio defaid. Sefydlog mewn ardaloedd ffermio cymysg. Niferoedd lluosog o'r adar hyn yn ymweld yn lleol yn y gaeaf.
Sylvia atricapilla	Cap Du	Cyfredol	Rhywogaeth magu cyffredin sydd hefyd yn gaeafu yn achlysurol. Dim data ar gael.
Sylvia borin	Telor yr ardd	Cyfredol	Ymwelydd cyffredin yn ystod yr haf. Nid oes data yngl~n â niferoedd ar gael.
Sylvia communis	Llwydfron	Cyfredol	Ymwelydd yn ystod yr haf. Mae niferoedd yn parhau yn sylweddol is nag yr oeddent cyn 1969 ym Mrycheiniog. Mewn mannau eraill mae niferoedd wedi eu hadfer.
Sylvia curruca	Llwydfron Fach	Cyfredol	Ymwelydd yn ystod yr haf mewn niferoedd sy'n amrywio. Fe'u cyfyngir yn bennaf i brysg ar ffermdir cymysg yr iseldir.
Thecla betulae	Brithribin Frown	Anhysbys	Rhywogaeth leol ond gyda dosbarthiad eang yn Sir Gaerfyrddin.
Thymallus thymallus	Iâr Fach y Graig	Cyfredol	Dim data ar gael.
Tringa ochropus	Pibydd Gwyrdd	Cyfredol	Aderyn mudo sy'n mynd drwy'r ardal ac yn byw yn y gaeaf yma mewn niferoedd bychain.
Tringa totanus	Pibydd Coesgoch	Cyfredol	Poblogaeth fagu leol yn adnabyddus ger Brynmawr. Ni chafwyd cofnodion diweddar yngl~n â magu mewn mannau eraill yn y Parc. Aderyn anghyffredin ond a welir yn rheolaidd wrth fudo yn arbennig at Lyn Syfaddan.
Triturus helveticus	Madfall Dd@r Balmwyddog	Cyfredol	Cyffredin yn y Parc. Dim data ar gael.
Turdus iliacus	Coch Dan-aden	Cyfredol	Ymwelydd cyffredin yn ystod y gaeaf. Dim data ar gael.

	Atodiad 2:	**Archwiliad Cynefinoedd ar gyfer CGBLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**	
Turdus merula	Mwyalchen	Cyfredol	Aderyn a welir yn byw yma'n gyffredin. Dim data ar gael.
Turdus pilaris	Socan Eira	Cyfredol	Ymwelydd cyffredin yn ystod y gaeaf. Dim data am niferoedd ar gael.
Turdus torquata	Mwyalchen y Mynydd	Cyfredol	Aderyn sy'n magu ac yn mudo a welir yn y Mynyddoedd Duon, Bannau Brycheiniog, Craig Cerrig Gleisiad, Craig y Cilau a'r Mynydd Du. Mae wedi dirywio'n sylweddol ers yr 1970au.
Tyto alba	Tylluan Wen	Cyfredol	Aderyn sy'n byw yma ac yn magu mewn tua 15 o safleoedd.
Ulex gallii	Eithin y Mynydd	Cyfredol	Cyffredin yn y Parc.
Vanellus vanellus	Y Gornchwiglen	Cyfredol	Aderyn sy'n magu ac yn byw mewn niferoedd bychain ar draws y Parc. Mae'r Parc yn cynnal rhyw 10% o boblogaeth Cymru (tua 55-66 o barau).
Veronica spicata hybrida	Rhwyddlwyn Pigog	Cyfredol	Clogwyni Carreg Cennen.
Vipera berus	Gwiber	Cyfredol	Fe'i cyfyngir yn lleol i ardaloedd yr ucheldir.
Zahmenhofia rosei	Cen Cerrig	Cyfredol	Dim data ar gael.
Rhywogaethau o Ddiddordeb Lleol			
Eupithecia valerianata	'Valerian Pug'	Cyfredol	Dim data ar gael.
Sefydlu maint yr ymchwil a'r wybodaeth am ecoleg a gofynion cadwraeth yr ystlumod pedol lleiaf**.**	VWT	Paratoi llyfryddiaeth o bapurau ymchwil ar ecoleg a chadwraeth yr ystlum pedol lleiaf erbyn diwedd 2001.	2001	
Gwneud astudiaethau lleol ar gynefinoedd a defnydd o lwybrau yn yr awyr gan y rhywogaeth i gynnal poblogaethau yn ôl statws cadwraeth ffafriol, gan ddefnyddio'r ymchwil hon i gynorthwyo i ddatblygu canllawiau a pholisïau ar gyfer gwarchod, creu a rheoli cynefinoedd. (Mae YBGV hefyd yn bartner arweiniol).	VWT, BLHBWG	Nid yw'r project na'r amserlen wedi eu cytuno eto.		
Gwneud arolwg cynhwysfawr i nodi clwydi mamolaeth yn gysylltiedig â hibernacula adnabyddus, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i ardaloedd o amgylch (yn nhrefn blaenoriaeth) Crughywel, Ardal Coed y Cerrig, Dyffryn Llanddewi Nant Hodni, Talyllyn, Aberhonddu, Dyffryn Tawe/Mynydd Du.	BLHGWG, Grwpiau Ystlumod	Sicrhau arian ar gyfer yr arolwg erbyn haf 2001.	2001	
Cynllun Gweithredu Britheg y Gors (*Eurodryas aurina*)				
Hysbysu cytref fagu Penderyn fel SDdGA		Cwblhau'r hysbysiad yn 2000.	2000	
Adolygu'r SDdGA presennol i sicrhau y gwarchodir diddordeb britheg y gors yn ddigonol. Diwygio ffiniau safleoedd lle bo hynny'n angenrheidiol.		Cwblhau erbyn y flwyddyn 2010.	2010	
Yr holl berchnogion tir yr effeithir arnynt i sicrhau bod rheolaeth ar y safleoedd eu hunain lle mae'r rhywogaeth hon yn bresennol, yn cyd-fynd ag arfer gorau ar gyfer ei warchod. (YBG, CC, PCBB yn bartneriaid arweiniol).	YBG, CCGC, PCBB, CC	Yn parhau		
Cyflwyno cyfrifiadau ar weoedd larfau yn flynyddol ar yr holl safleoedd adnabyddus (YBG, PCBB hefyd yn bartneriaid arweiniol).	PCBB, CCGC, YBG	Cyfrifiadau gwe blynyddol wedi eu sefydlu ar yr holl safleoedd adnabyddus ar hyn o bryd erbyn haf 2002 ac ar ôl hynny yn ystod yr haf yn union ar ôl cofnodi safleoedd newydd.	2002	
Cynllun Gweithredu Morgrugyn y Coed *(Fornica rufa*)				
CCGC i weithio gyda'r tirfeddiannwr yng Nghwm Twrch Uchaf i reoli'r safle morgrug y coed. Ystyried annog y perchennog i fynd i mewn i gynllun Tir Gofal os yw'r cynefin yn briodol.	PCBB	Cysylltu â ac ymweld â'r tirfeddiannwr erbyn diwedd 2001.	2001	£500/ha rheoli coed-lannau
Sefydlu system monitro ar y tair poblogaeth y gwyddys amdanynt.	PCBB, MC, YG	Sefydlu methodoleg erbyn 2001. Nodi cyfrifoldebau a monitro ar gyfer bob safle.	2001	
Darparu hyfforddiant ar gyfer staff CC, MC a PhCBB a swyddogion Tir Gofal i sicrhau y	PCBB, MC, CC	Cynnal digwyddiad hyfforddi yn 2002.		

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: CCGC	**Partneriaid**	**Targedau**	**Dyddiadau targed**	**Costau**
rhoddir cydnabyddiaeth i'r rhywogaeth yn ystod arolygon. Gellir cyfuno hyn â hyfforddi arolygwyr gwirfoddol (mae PCBB hefyd yn bartner arweiniol).				
Nodi rhesymau am ddirywiad o fewn PCBB ac ystyried mesurau priodol i atal hyn, gan gynnwys cysylltiadau gyda minc, effeithiau darnio'r cynefin ac effeithiau gwenwyn llygod a chwynladdwr ar gynefinoedd y glannau.		Cael dealltwriaeth am y rhesymau am y dirywiad erbyn 2006; gosod targedau i liniaru'r ffactorau achlysurol erbyn 2006.		
Datganiad Rhywogaeth y Cen Cerrig 'River Jelly' (*Collema dichotomum*)				
Ymdrinnir â'r datganiad am y rhywogaeth gyfan gan GCGC, gydag un cam gweithredu hefyd gan AA.				
Datganiad Rhywogaeth (*Geastrum fornicatum*)				
Darparu cyngor i reolwyr mynwentydd i sicrhau nad yw ei safleoedd yn cael eu dinistrio.				
Arolygu safleoedd adnabyddus yn yr hydref, gan nodi gofynion y cynefin, rhywogaethau cysylltiedig, pH y pridd ac ati.	YBG			
Cael ffotograffau da a/neu luniadau i ddangos arweiniad ynghylch rheoli'r rhywogaeth hon.				
Datganiad Rhywogaeth ynghylch y mwsogl (*Hamotocaulis vernicosus* **yn flaenorol** *Drepanocladus vernicosus)*				
Mae angen arolwg eang o ruthrau d@r addas a ffeniau hesg o fewn PCBB i benderfynu ar ei statws cyfredol. Data i'w gasglu i sefydlu'r rhywogaethau cysylltiedig, maint y boblogaeth, cemeg y d@r, rheolaeth gyfredol ac unrhyw fygythiadau amlwg i'w goroesiad**.**				
Datganiad Rhywogaeth *Hygrocybe calyptriformis ('pink meadow cap')*				
Archwilio data'r arolwg presennol (fel Arolwg Ucheldir NCC Cymru ac arolygon tir comin Cam I, a Cham II CCGC) i benderfynu ar faint y lleoliadau sy'n debygol o fod yn addas ar gyfer y rhywogaeth hon.				
Gwneud arolygon er mwyn sefydlu lluosogrwydd a maint y 'pink meadow cap', y rhywogaethau cysylltiedig, y rheolaeth gyfredol ac os yn bosib y rheolaeth yn y gorffennol ac unrhyw reolaeth debygol yn y dyfodol neu brosesau sy'n digwydd yn naturiol a allai effeithio ar y safle.				
Datganiad Rhywogaeth Afuad nofiol fioled (*Riccia huebeneriana*)				
Ymdrinnir â'r holl gamau gweithredu, ac eithrio dau, gan GCGC.				

Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd am amser gwirfoddolwr, hefyd yn cynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gostau staff arferol ac fe'u cyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: AA	**Partneriad**	**Targedau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
Camau Gweithredu a Thargedau				
Wrth roi caniatâd ar gyfer gweithrediadau fel tynnu d@r ac ati sicrhau y rhoddir ystyriaeth wedi ei phwysoli i anghenion holl gynefinoedd a rhywogaethau CGBLl PCBB (mae CCGC a PCBB yn bartneriaid arweiniol hefyd)	CCGC, PCBB	Erbyn 2001 sicrhau bod yr holl brosesau penderfynu yn sensitif i amcanion a gweithredu'r CGBLl. Sicrhau y derbynnir yr ymrwymiad hwn gan yr holl ymgymerwyr statudol eraill y gallai eu gweithrediadau effeithio ar y ffawna a'r fflora o fewn PCBB.	2001	
Sicrhau bod yr holl weithdrefnau caniatáu a thrwyddedu, gan gynnwys unrhyw arolwg o ganiatadau a thrwyddedau presennol, yn cydymffurfio â pholisïau a gofynion cyfreithiol y DG a'r UE yn ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth (CCGC hefyd yn bartner arweiniol).	PCBB, CCGC, DCWW	Cwblhau'r Strategaeth Cadwraeth a'r Protocol Caniatáu ar gyfer SDdGA/yACA Wysg erbyn diwedd 2000. Cwblhau Arolwg Caniatadau y Gyfarwyddeb Cynefinoedd erbyn 2004. Sicrhau bod yr holl geisiadau am ganiatadau a thrwyddedau yn cwrdd â gofynion cyfreithiol erbyn diwedd 2000.	2000; 2004	
Cynllun Gweithredu Afonydd a Nentydd				
Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu gan Asiantaeth yr Amgylchedd.				
Cynllun Gweithredu Herlyn a Gwangen (*Alos fallax* a *A. alosa*)				
Ymdrinnir â'r Cynllun Gweithredu cyfan gan Asiantaeth yr Amgylchedd				
Cynllun Gweithredu Llygoden y D@r (*Arvicola terrestris*)				
Cynnwys y gofynion ecolegol ar gyfer llygod y d@r wrth wneud gwaith i gynnal amddiffynfeydd rhag llifogydd.		Sicrhau bod yr holl staff cynnal sydd ar gontract ac sy'n derbyn cyflog rheolaidd yn cael gwybodaeth lawn.		
Sicrhau nad yw'r camau gweithredu ar gyfer rheoli'r cynefin ar gyfer llygoden y d@r a'r dyfrgi yn amharu ar ei gilydd		Gwneud croes-wiriadau mewn cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar safleoedd sy'n fanteisiol i lygoden y d@r a'r dyfrgi.		
Sicrhau ymwybyddiaeth o lygod y d@r wrth gynghori ynghylch defnyddio chwynladdwyr a gwaredu cemegau sydd wedi eu defnyddio ar dir.		Datblygu cyngor mewnol ac allanol erbyn 2003.	2003	
Datganiad Rhywogaeth Cen Cerrig 'River Jelly' (*Collema dichotomum*)				
Gwneud ymchwil i sicrhau rheolaeth cadwraeth effeithiol. Adolygu tueddiadau o fewn data ansawdd d@r AA i nodi a datrys unrhyw fygythiadau sy'n datblygu (CCGC hefyd yn bartner arweiniol).	CCGC			

Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd am amser gwirfoddolwr, hefyd yn cynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gostau staff arferol ac fe'u cyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: CC, MC	**Partneriad**	**Targedau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
Camau Gweithredu Cyffredinol a Thargedau				
Atal coedwigo ar yr holl safleoedd lle ceir cynefinoedd a rhywogaethau CGBLl PCBB.	PCBB	CC i sicrhau na fydd unrhyw goedwigo yn digwydd ar y safleoedd hyn.		
Cynllun Gweithredu Glaswelltir Asidig				
Gwarchod glaswelltir asidig pwysig rhag ei goedwigo drwy Strategaeth Coedlannau Cymru a Strategaeth Cadwraeth CCGC ar gyfer rhostir arfordirol yr iseldir, Cynlluniau Rheoli Ardal PCBB a map Adran 3 CRhPC.	PCBB, CCGC	Sicrhau bod planiadau mewn coedwigoedd a choedlannau wedi eu targedu at laswelltiroedd asidig sy'n dlawd o ran rhywogaethau. Osgoi plannu glaswelltiroedd U1 ac U4C.		
Yn yr ucheldir ac ar ymyl yr ucheldir (ffridd) arolygu'r holl lethrau rhedyn cysgodol sy'n wynebu'r de am bresenoldeb y Fritheg Frown cyn rhoi caniatâd i blannu coedlannau/coedwigaeth.	YBG, PCBB, CCGC, Gwarchod Ieir Bach yr Haf	Sicrhau y gwneir asesiad digonol o'r holl safleoedd plannu arfaethedig a allai fod yn bwysig i'r fritheg frown.		
Cynllun Gweithredu'r Glaswelltir Calchaidd				
Gwarchod glaswelltir calchaidd pwysig rhag ei goedwigo drwy Strategaeth Goedlannau Cymru a Chynlluniau Rheoli Ardal a map Adran 3 CRhPC.	PCBB, CCGC	Dim coedwigo pellach ar laswelltir calchaidd yr iseldir na glaswelltir calchaidd yr iseldir sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau.		
Cynllun Gweithredu Rhostir gyda Phrysg Bychain				
Gwarchod rhostir gyda phrysg bychain rhag eu coedwigo drwy Strategaeth Coedlannau Cymru a Strategaeth Cadwraeth CCGC ar gyfer Rhostir Arfordirol a'r Iseldir, Cynlluniau Rheoli Ardal PCBB, a map Adran 3 CRhPC.	PCBB, CCGC	Dim coedwigo pellach ar gynefin rhostir gyda phrysg bychain yn tyfu arno.		
Cynllun Gweithredu Cyforgors a Gorgors				
Gwarchod gorgors a chyforgors rhag coedwigo trwy Strategaeth Coedlannau Cymru, Cynlluniau Rheoli Ardal PCBB a map Adran 3 CRhPC.	PCBB, CCGC	Dim coedwigo pellach ar gynefin gorgors a chyforgors. Nodi ardaloedd lle gall ardaloedd sydd wedi eu coedwigo gael eu troi yn ôl yn orgors, gan osod targedau ardal ar gyfer 2001 a 2020.	2010; 2020	
Asesu ymarferoldeb adfer y gors o fewn Coedwig Glasfynydd (SN883252)	CCGC, PCBB	Gwneud arolwg o'r llystyfiant a pharatoi cynllun adfer erbyn 2001/2002.	2001/ 2002	£500/ha
Cynllun Gweithredu Afonydd a Nentydd				
Gwneud rhaglen o reoli coed gyda'r glannau gan gynnwys gwella'r boblogaeth o'r boblysen ddu. (PCBB, CCGC, AA hefyd yn bartneriaid arweiniol)	PCBB, CCGC, AA, GFGA	Yn parhau		£500/ha.
Cynllun Gweithredu Coedlannau				
Ar draws yr ucheldiroedd a'r iseldiroedd dod â 100 hectar o goedlannau o dan reolaeth briodol bob blwyddyn.	PCBB, CCGC, YBG, Coed Cymru	Gan ddefnyddio meini prawf asesu cyflwr coedlannau, nodi ardaloedd addas a dechrau ar y rhaglen o adfer coedlannau erbyn 2003.	2003	£115-150/ha o daliadau blynyddol £1200 o gostau cyfalaf yn dod yn rhatach gyda arwynebedd
Sefydlu 100 hectar o goedlan llydanddail newydd bob blwyddyn ar draws yr ucheldiroedd a'r iseldir	PCBB	Dechrau nodi digon o ardaloedd sydd yn ymyl neu yn agos at safleoedd presennol o goedlannau brodorol erbyn 2003.	2003	£900/yr hectar am blannu £1200 o gostau cyfalaf. Mae'n dod yn

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: CC, MC	**Partneriad**	**Targedau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
				rhatach gydag arwynebedd.
Mynd yn ôl at fathau o goedlan frodorol, sy'n addas ar gyfer ecoleg leol, coedlan ar Safleoedd Coedlannau Hynafol (PAWS) lle ceir mwy na 50% o rywogaethau anfrodorol ar y safle.		Nodi safleoedd ar gyfer adfer 10% o adnodd y PAWS ar gyfer yr holl fathau a ddisgrifir yn y cynllun hwn erbyn 2005.	2005	Bydd yn amrywio yn ôl cyflwr y safle ac ati. Felly'r isafswm yn ôl 15 dydd/ha yn ôl £80/dydd.
Sicrhau nad oes coedlannau newydd yn cael eu plannu ar dir sydd eisoes o ddiddordeb ecolegol arbennig.	PCBB, CCGC, YBG	Dim coedwigo ar gynefinoedd heb eu gwella sy'n cyflawni meini prawf Safleoedd Bywyd Gwyllt oni bai nad yw plannu yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddiddordeb arbennig y safle.		
Ymchwilio i'r dulliau gorau o adfer safleoedd sydd wedi eu diraddio gan blannu neu ymlediad rhywogaethau egsotig neu amhriodol	CCGC	Cynhyrchu nodiadau ymgynghorol yngl~n ag adfer coedlannau erbyn 2003.	2003	
Cynllun Gweithredu Llygoden y Maes (*Muscardinus avellanarius*)				
Annog tirfeddianwyr i osod giatiau pren yn lle rhai metel, oherwydd na fydd llygod y maes yn croesi gwrthrychau metalig, tra bo coed yn dderbyniol. (PCBB a ChCCG hefyd yn bartneriaid arweiniol)	CC, PCBB, CCGC	Hyrwyddo giatiau pren wrth drafod cytundebau Adran 15, Tir Gofal, CGC (WGS) a chynlluniau eraill.		
Cynllun Gweithredu Britheg y Gors (*Eurodryas aurina*)				
Rhaid i'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt sicrhau bod rheolaeth ar eu safleoedd eu hunain lle mae'r rhywogaeth hon yn bresennol yn cyd-fynd ag arfer gorau ar gyfer ei warchod (WT, CCGC, PCBB hefyd yn bartneriaid arweiniol)	YBG, CCGC, PCBB	Yn parhau		
Cynllun Gweithredu'r Troellwr Mawr (*Caprimulgus europeaus*)				
Sicrhau bod targedau penodol a rheolaeth ar gyfer y Troellwr Mawr yn cael eu cynnwys lle bo hynny'n berthnasol yn yr holl gynlluniau datblygu a rheoli gan gynnwys Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd, a gynhyrchwyd gan aelodau'r bartneriaeth.	PCBB, CCGC, YBG	Yn parhau		
Sicrhau bod rheolaeth tir sy'n berchen i/a reolir gan y bartneriaeth, yn arbennig yng Nglas Fynydd a Phantmawr yn ffafriol i'r troellwr mawr.	Gr@p Llywio CGBLl	Cynyddu'r boblogaeth sy'n magu yn y safleoedd hyn o 20% erbyn 2010.	2010	£150/ha.
Cynllun Gweithredu Morgrugyn y Coed (*Formica rufa*)				
CC i reoli ymyl y goedlan lydanddail yng Nghwm Giedd er budd morgrugyn y coed. Bydd hyn yn cynnwys atal ymlediad ardaloedd o ddail llydanddail gan goed conwydd, yn ogystal â theneuo neu docio ardaloedd o goed llydanddail i ganiatau ail-dyfiant ac i gynyddu'r golau sy'n dod i mewn drwy'r canopi.	PCBB, CCGC	Amcanion rheoli i'w cytuno rhwng MC, PCBB a ChCGC erbyn diwedd 2001.	2001	£500/ha

Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd am amser gwirfoddolwr, hefyd yn cynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gostau staff arferol ac fe'u cyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: Gr@p Llywio CGBLl	**Partneriad**	**Targetau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
Camau Gweithredu Cyffredinol a Thargedau				
Sicrhau bod pob partner Gr@p Llywio CGBLl PCBB yn egluro ei rôl o ran gweithredu'r CGBLl hwn.	GFGA, YG, CC, AA, FRCA (CCC), undebau amaethyddol ac ati).	Pob partner i gynhyrchu datganiad drwy roi manylion yngl~n â'i rôl a'i gyfraniad a lle bo hynny'n bosib, yn nodi aelod(au) staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu.		
Sicrhau bod gofynion ecolegol rhywogaethau a chynefinoedd CGBLl PCBB yn cael eu trin lle bo hynny'n berthnasol yn yr holl gynlluniau a pholisïau datblygu a rheoli a gynhyrchir gan aelodau'r bartneriaeth.	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau		
Sicrhau bod rheoli tir sy'n eiddo i/a reolir gan y bartneriaeth yn cael ei lywio tuag at gwrdd ag amcanion perthnasol y Cynllun Gweithredu ac arfer gorau ar gyfer y cynefinoedd a rhywogaethau dan sylw.	Gr@p Llywio CGBLl	Gweler cynlluniau gweithredu		
Sicrhau lle bynnag y ceir coed aeddfed neu hen goed, naill ai ar ben eu hunain neu mewn clystyrau (er enghraifft mewn coedlan, coedwig, parcdir, gwrych, glan afon), eu bod yn cael eu rheoli er budd infertebratau saprosylig, mwsoglau, cen cerrig a ffwngau.	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau		
Sicrhau lle'r bynnag y bo mign, cors, pyllau a gwlyptir wlyb yn digwydd mewn brithwaith gyda chynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt o fewn CGBLl PCBB, y gwarchodir hwy rhag gor-bori, mewnlenwi, gostwng y lefel trwythiad a'u trosi i ddefnyddiau eraill	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau		
Sicrhau lle bynnag y ceir tarddellau a rhuthrau d@r cysylltiedig o fewn cynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt o fewn CGBLl PCBB y nodir eu lleoliad, a'u bod yn cael eu cynnal drwy reolaeth briodol.	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau		
Cynnal dosbarthiad a lluosogrwydd cyfredol rhywogaethau CGBLl PCBB o fewn PCBB**.**	Gr@p Llywio CGBLl	Yn parhau		
Cynnal dosbarthiad presennol a lluosowgrwydd rhywogaethau CGBLl PCBB o fewn PCBB.	Gr@p Llywio CGBLl	Gweler cynlluniau gweithredu		
Sefydlu rhestr o'r holl ymchwil berthnasol, gan gynnwys llygredd atmosfferig a newid yn yr hinsawdd, sy'n effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd CGBLl PCBB.	Gr@p Llywio CGBLl	Darparu rhestr o gyhoeddiadau bob dwy flynedd.		
Sicrhau bod yr holl fethodoleg arolygu a monitro a ddefnyddir yn briodol ar gyfer y dasg, ei bod yn gyson gyda ac yn rhoi sail ar gyfer dulliau a ddefnyddir yn genedlaethol.	Gr@p Llywio CGBLl, GGB	I'w sefydlu		
Gosod dyddiadau adolygiadau ar gyfer yr holl gynlluniau gweithredu a datganiadau, yn seiliedig ar wybodaeth sy'n ymddangos ynghylch statws, dosbarthiad ac ati i gynefinoedd a rhywogaethau CGBLl PCBB	Gr@p Llywio CGBLl	Heb eu gosod eto		
Sicrhau ymdriniaeth gan y cyfryngau o gamau a gymerir gan y cyrff sy'n bartneriaid drwy gyfrwng llythyrau newyddion, adroddiadau a datganiadau o'r wasg	Gr@p Llywio CGBLl	Ar ôl sicrhau swyddog gweithredu bioamrywiaeth, cynnwys gwaith cyhoeddusrwydd yn y cylch gorchwyl.		
Asesu cost ac ymarferoldeb sefydlu cyfres o gorsleoedd i reoli adnoddau d@r wrth gilfachau i gronfeydd d@r drwy gydol PCBB ac ar led-nentydd afon Wysg yr effeithir arnynt gan lygredd (D@r Cymru/Welsh Water yn bartner arweiniol)	D@r Cymru /Welsh Water.	Astudiaeth ymarferoldeb i asesu'r gost a'r materion technegol sy'n ymwneud â hyn er mwyn dyblu arwynebedd y corsle sy'n gysylltiedig â d@r agored erbyn 2010.	2010	£20,000-£30,000 o gostau technegol

Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd am amser gwirfoddolwr, hefyd yn cynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gostau staff arferol ac fe'u cyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: Cyrff a grwpiau eraill nad ydynt o fewn Gr@p Llywio CGBLl	**Partneriad**	**Targetau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol				
Cynllun Gweithredu Rhostir gyda Phrysg Bychain				
Caniatáu gwaith Project Meithrinfa Hillside wedi i'r lluosogi a thechnegau plannu allan gael eu profi yn ystod y cam peilot.	PCBB, CCGC, Gwasanaethau Cymdeithasol, Coleg Powys.	Paratoi brîff ar gyfer y project a nodi arian yn 2001. Ystyried ehangu'r project i ymdrin â darparu tarddiad lleol i amrediad o gynefinoedd.	2001	Cy £200/ y dydd
Cynllun Gweithredu Morgrugyn y Coed (*Formica rufa*)				
Yn dilyn arolwg i benderfynu ar faint y boblogaeth yn St Mary's Vale, YG i nodi a gweithredu arferion rheoli coedlannau priodol.	PCBB, CC	Nodi gofynion rheoli yn 2001 a'u cynnwys i Gynllun Rheoli'r safle.	2003	
Adolygu'r poblogaethau o forgrug coch yn St Mary's Vale gan ddefnyddio gwirfoddolwyr yr YG a PCBB.	PCBB	Hyfforddi gwirfoddolwyr a dechrau arolygu 2002. Cwblhau'r arolwg erbyn Hydref 2003.	2002; 2003	
D@r Cymru/Welsh Water				
Cynllun Gweithredu'r Corsleoedd				
Asesu cost ac ymarferoldeb sefydlu cyfres o gorsleoedd i reoli ansawdd d@r wrth fewnfeydd i gronfeydd d@r trwy PCBB ac ar lednentydd afon Wysg yr effeithir arnynt gan lygredd, (Gr@p Llywio CGBLl hefyd yn bartneriaid arweiniol).	Gr@p Llywio CGBLl	Astudiaeth ymarferoldeb i asesu cost a materion technegol sy'n ymwneud a dyblu'r ardal o gorsle sy'n gysylltiedig â d@r agored erbyn 2010.	2010	£20,000-£30,000/ ha costau technegol
Cynllun Gweithredu Britheg y Gors (*Eurodryas aurina*)				
Parhau i reoli safle Cronfa Dd@r Wysg ar gyfer britheg y gors.	PCBB, MC, CCGC, Gwarchod Ieir Bach yr Haf	Monitro poblogaeth yr oedolion a gweoedd larfaidd yn 2000-2001. Yng ngoleuni canlyniadau, adolygu rheoli'r safle.	2000, 2001	
Coed Cymru				
Cynllun Gweithredu Coedlannau				
Annog defnyddio coedlannau ar gyfer cynhyrchu pren yn gynaladwy.	CC	Yn parhau		
Dyfrffyrdd Prydain				
Cynllun Gweithredu Llygoden y D@r (*Arvicola terrestris*)				
Gweler targedau adfer cynefin ar gyfer Camlas Brycheiniog a Sir Fynwy.	YBG	Gosod targedau i hydau o gynefin gael eu hadfer a'u hail-gytrefu erbyn 2002. Gosod targedau ar gyfer gwneud gwaith angenrheidiol erbyn 2002.	2002	
Paratoi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Camlas Mynwy-Brycheiniog, yn cynnwys llygod y d@r.	YBG, CCGC, AA	Cynllun gweithredu wedi ei baratoi a bydd yn barod i'w weithredu erbyn haf 2002.	2002	
BLHBWG, Grwpiau Ystlumod, YBGV (VWT)				
Gweler Cynllun Gweithredu'r Ystlum Pedol Lleiaf (Rhinolophus hipposideros) am y camau gweithredu				
Gwarchod Ieir Bach yr Haf				
Cynllun Gweithredu Britheg y Gors (*Eurodryas aurina*)				
Datblygu arfer gorau ar gyfer rheoli cynefin lle ceir britheg y gors, i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol a tirfeddianwyr preifat		Arfer gorau ar gael i'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt erbyn 2004		
Adran Priffyrdd				
Cynllun Gweithredu'r Dyfrgi (*Lutra lutra*)				
	YBG (OARP). PCBB, AA, ALl	Dechrau ar raglen o waith lliniaru mewn ardaloedd lle mae dyfrgwn mewn perygl erbyn 2006.	2006	

Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd am amser gwirfoddolwr, hefyd yn cynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gostau staff arferol ac fe'u cyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: : YBG	**Partneriad**	**Targetau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
Cynllun Gweithredu Addysg ac Ymwybyddiaeth				
Defnyddio cysylltiadau presennol gyda ysgolion i hyrwyddo bioamrywiaeth.	PCBB	Cyflwyno bioamrywiaeth drwy raglen o weithgareddau Gwylio i ysgolion cynradd.		
Defnyddio'r Rhyngrwyd i ddarparu gwybodaeth ddiweddaraf yngl~n â gweithredu ynghylch bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol (PCBB hefyd yn bartner arweiniol)	Gr@p Llywio CGBLl	PCBB ac YBGB i ddatblygu a chynnal gwefan bioamrywiaeth erbyn haf 2001. Sicrhau y cydlynir gwefannau i roi'r ymdriniaeth orau i'r materion dan sylw.	2001	
Cynllun Gweithredu Casglu a Rheoli Data				
Sefydlu Canolfan Gofnodion Leol ym Mhowys	Gr@p Llywio GGBLl	Dechrau'r cam sefydlu yn 2000/2001 £15,000.	2000/ 2001	£40,000 i sefydlu, gofynnir am £15,833 gan BCBB
Sicrhau bod gwybodaeth ecolegol ar gael i'r cyhoedd (PCBB hefyd yn bartner arweiniol)	Gr@p Llywio CGBLl	Sefydlu dull o sicrhau bod data ansensitif priodol ar gael drwy wefannau PCBB ac YBGB yn 2001. Sefydlu protocol ar gyfer sicrhau y bydd data ar gael drwy GGB (BIS) yn 2000/2001.	2000/ 2001	
Cynllun Gweithredu Glaswelltir Calchaidd				
Creu 4 hectar o laswelltir calchaidd yr iseldir (PCBB hefyd yn bartner arweiniol).	PCBB	Erbyn diwedd 2002 nodi ardal o fewn perchnogaeth PCBB acYBG lle gellir creu 4ha o laswelltir calchaidd, ger ardaloedd presennol CG1, CG2 neu CG10. Sicrhau'r broses o gyflawni hyn erbyn yr un dyddiad.	2002	£450/ha
Cynllun Gweithredu Cyforgors a Gorgors				
Cynyddu maint cyforgors yr iseldir yn SDdGA Pyllau Illtyd (PCBB hefyd yn bartner arweiniol)	PCBB	Codi lefelau d@r yn y pyllau erbyn 2005.	2005	£500
Cynllun Gweithredu Porfeydd Rhos				
Yn ychwanegol at y camau gweithredu cyffredinol ar gyfer Safleoedd Bywyd Gwyllt nodi'r borfa rhos orau.	Gr@p Llywio'r Project Safleoedd Bywyd Gwyllt		2005; 2010	
Cynllun Gweithredu Afonydd a Nentydd				
Nodi un safle ar gyfer adfer afon neu nant sydd wedi ei diraddio'n gymhedrol neu yn ddifrifol, yn holistig a'i chynefinoedd cysylltiedig yn y Parc Cenedlaethol.	Gr@p Llywio CGBLl	Gwneud astudiaeth o ymarferoldeb adfer un safle erbyn 2002.	2002	
Datblygu'r meini prawf ar gyfer nodi safleoedd bywyd gwyllt afonydd. Nodi cyfres o safleoedd yn y Parc Cenedlaethol**.**	Gr@p Llywio'r Project Safleoedd Bywyd Gwyllt	Profi meini prawf arfaethedig ar 15 o safleoedd afonydd yn 2002/2003. Nodi'r holl safleoedd sy'n cwrdd â'r meini prawf y cytunir arnynt yn derfynol erbyn 2005.	2005	
Cynllun Gweithredu'r Gylfinir (*Numenius arquata*)				
Darparu cyngor ynghylch rheoli cynefin a chynlluniau grant drwy'r Project Safleoedd Bywyd Gwyllt, Tir Gofal a gwasanaeth ymgynghorol PCBB yn arbennig i'r rheolwyr tir hynny o fewn 2km o safleoedd gyda un pâr yn magu a nodwyd gan arolwg y Parc.	PCBB, CCGC, WSP	Trafod dewisiadau gyda'r holl reolwyr tir perthnasol erbyn 2003.	2003	
Trefnu arolwg bob dwy flynedd yn dechrau yn 2002 i sicrhau y rhoddir ymdriniaeth lawn i'r holl safleoedd hysbys. Gweithredu: PCBB, CCGC, YBG.		Cytuno ar fethodoleg monitro erbyn diwedd 2001. Bod ag amcangyfrif o boblogaeth a thueddiadau wedi eu cytuno o fewn y Parc Cenedlaethol erbyn diwedd 2002. Cael gwell	2001; 2002; 2005	

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: : YBG	**Partneriad**	**Targetau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
		gwybodaeth yngl~n â'r defnydd y mae'r gylfinir yn ei wneud o'r cynefin yn yr ardal erbyn 2005.		
Cynllun Gweithredu Llygoden y Maes (*Muscardinus avellanarius*)				
Trefnu dyddiau hyfforddi ar ecoleg ac arwyddion caeau i wirfoddolwyr a'r cyhoedd.	PCBB	Erbyn haf 2003 sefydlu dyddiau hyfforddi achlysurol.	2003	
Gwneud arolygon systematig o'r poblogaethau y gwyddys amdanynt o lygod y maes a safleoedd potensial i lygod y maes yn yr ardaloedd canlynol: Felin Fach i'r Gelli Gandryll; Llangadog i Halfway; Crughywel i'r Fenni.	PCBB, CCGC	Arolygu'r holl safleoedd a enwyd erbyn diwedd 2004.	2004	
Parhau â'r cynlluniau monitro cyfredol ar flychau llygod y maes; sefydlu cynllun ychwanegol yn ardal Llangadog i Halfway.	PCBB	Yn parhau		
		Ni phenderfynwyd ar hyn eto.		
Cynllun Gweithredu'r Cwtiad Aur (*Pluvialis apricaria*)				
Darparu cyngor yngl~n â rheoli cynefinoedd a chynlluniau grant drwy'r project Safleoedd Bywyd Gwyllt, Tir Gofal a gwasanaeth ymgynghorol PCBB yn arbennig i'r rheolwyr tir hynny o fewn 2km o safleoedd gydag un pâr yn magu a nodwyd gan arolwg y Parc.	PCBB, CCGC	Trafod y dewis gyda'r holl reolwyr tir perthnasol sydd wedi gwneud cais am y cynllun erbyn 2003.	2003	
Trefnu arolwg bob dwy flynedd yn dechrau yn 2002 a fydd yn ceisio sicrhau ymdriniaeth lawn i'r safleoedd y gwyddys amdanynt a rhai potensial.	PCBB, CCGC	Cytuno ar fethodoleg monitro erbyn diwedd 2001. Bod ag amcangyfrif o boblogaeth a thueddiadau wedi eu cytuno arnynt o fewn y Parc Cenedlaethol erbyn diwedd 2002. Cael gwybodaeth well am y defnydd a wna'r cwtiad aur o'r cynefin yn yr ardal erbyn 2005.	2001; 2005	
Cynllun Gweithredu'r Gornchwiglen (*Vanellus vanellus)*				
Mireinio amcangyfrifon poblogaeth, tueddiadau a dealltwriaeth o hoff gynefin o fewn y Parc erbyn diwedd 2005. Monitro'r poblogaethau sy'n magu'n flynyddol.		Trefnu arolwg sy'n parhau yn 2001/2002 gan sicrhau y rhoddir ymdriniaeth lawn i'r ardal. Cytuno ar y fethodoleg ar gyfer y monitro erbyn diwedd 2002.	2001/ 2002	
Rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r holl gamau gweithredu a'r camau rheoli. Tynnu sylw at rywogaethau a chynefinoedd eraill sy'n elwa o fesurau i warchod y gornchwiglen. Defnyddio apêl gyhoeddus eang y rhywogaeth i gyfleu cyflwr adar rhydio sy'n magu ac adar y ffermdir yn gyffredinol.		Cynnwys y gornchwiglen mewn cynllun i roi sylw yn y cyfryngau i bioamrywiaeth.		
Cynllun Gweithredu'r Ystlum Pedol Lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*)				
Cynnwys yr holl safleoedd sy'n cynnwys o leiaf bump anifail fel Safleoedd Bywyd Gwyllt.	BLHBWG, Grwpiau Ystlumod, CCGC, PCBB	Darparu gwybodaeth i'r Project Safleoedd Bywyd Gwyllt erbyn diwedd 2001.	2001	
Ystyried sefydlu safleoedd clwydo artiffisial	CCGC, VWT, PCBB, BLHBWG	Cynnwys y mater ar agenda BLHBWG.		
Cynllun Gweithredu Britheg y Gors (*Eurodryas aurina*)				
Yr holl berchnogion tir yr effeithir arnynt i sicrhau bod rheolaeth ar eu safleoedd eu hunain lle mae'r rhywogaeth hon yn bresennol yn cyd-fynd ag arfer gorau ar gyfer ei gwarchod. (CCGC, PCBB, CC hefyd yn bartneriaid arweiniol).	CCGC, PCBB, CC	Yn parhau.		
Cyflwyno cyfrifiadau blynyddol o weoedd larfau ar yr holl safleoedd adnabyddus (CCGC, PCBB hefyd yn bartneriaid arweiniol).	PCBB, CCGC, YBG	Cyfrifiadau blynyddol o weoedd yn cael eu sefydlu ar yr holl safleoedd y gwyddys amdanynt ar hyn o bryd erbyn haf 2002 ac ar ôl hynny yn ystod yr haf yn	2002	

Camau gweithredu arfaethedig gyda thargedau ar gyfer: : YBG	**Partneriad**	**Targetau**	**Dyddiadau Targed**	**Costau**
		union ar ôl cofnodi safleoedd newydd.		
Cynllun Gweithredu'r Troellwr Mawr (*Caprimulgus europaeus*)				
Sicrhau bod gwybodaeth gyflawn am niferoedd, dosbarthiad a defnydd y troellwr mawr o gynefin yn yr ardal erbyn 2006.	PCBB, CCGC	Cyfranogi'n llawn yn yr arolwg cenedlaethol yn 2001. Trefnu arolwg bob dwy flynedd ar ôl hynny i sicrhau y rhoddir ymdriniaeth lawn i'r ardaloedd y gwyddys amdanynt.	2001	
Cynllun Gweithredu'r Dyfrgi (*Lutra lutra*)				
Nodi ardaloedd hanfodol fel cynefin i'r dyfrgi, yn arbennig safleoedd magu a chynnwys y rhain yng nghyfres y Safleoedd Bywyd Gwyllt.	(Project Gweithredu i Adfer Dyfrgwn - OARP), PCBB, AA, DC, GGB	Cofnodi'r holl ardaloedd critigol, a chadw'r data ar SWDd erbyn 2003.	2003	
Sicrhau nad yw'r camau gweithredu ar gyfer rheoli cynefin llygoden y d@r a'r dyfrgi yn effeithio'n niweidiol ar ei gilydd. (AA, PDAA (OARP) hefyd yn bartneriaid arweiniol)	AA, OARP	Cyflawni croes-wiriadau mewn cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar safleoedd sy'n fanteisiol i lygoden y d@r a'r dyfrgi		
Darparu cyngor i dirfeddianwyr a pherchnogion pysgodfeydd yngl~n â rheoli cynefin i ddyfrgwn, yn ogystal â ffynonellau cyllid ar gyfer gwaith sy'n dod â budd i ddyfrgwn (PDAA hefyd yn bartner arweiniol)	(OARP), AA, CCGC, PCBB	(Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd hefyd). Yn gyffredinol, gwella'r cyhoeddusrwydd yngl~n â gwarchod y dyfrgi ac argaeledd cyngor.		
Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o bwysigrwydd rhoi adroddiadau yngl~n â dyfrgwn a welir a rhai a welir wedi eu lladd ar y ffordd (PDAA hefyd yn bartner arweiniol)	(OARP), PCBB, AA	Cyhoeddi a dosbarthu'n eang ac yn effeithiol boster ymwybyddiaeth cyhoeddus erbyn 2003.	2003	
Defnyddio'r dyfrgi fel fflag-long i hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd d@r a chynefinoedd gyda'r glannau (PDAA hefyd yn bartner arweiniol)	(OARP)	Yn parhau.		
Cynllun Gweithredu Llygoden y D@r *(Arvicola terrestris)*				
Gwneud arolwg cynhwysfawr o ddosbarthiad y minc o fewn PCBB, mewn cydweithrediad â gwaith arolygu dyfrgwn.		Deall dosbarthiad a thueddiadau poblogaeth y minc erbyn 2002.	2002	£200/dy
Gwneud arolwg o lygoden y d@r ar ddalgych Afon Wysg a Chamlas Aberhonddu i Sir Fynwy. (DP (BW) hefyd yn bartner arweiniol)	AA, CCGC, PCBB, YBG, BW	Cwblhau'r arolwg o ddalgylch Wysg a'r Gamlas erbyn 2006.	2006	£200/dy
Sefydlu craidd o wirfoddolwyr wedi eu hyfforddi a darparu hyfforddiant i wardeniaid PCBB i gynorthwyo gydag arolygon a monitro. Sicrhau bod staff amddiffyn rhag llifogydd AA yn cael eu hyfforddi i nodi ardaloedd sy'n addas i lygoden y d@r ac i wneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn unol â hynny.	AA	Hyfforddiant ar y gweill erbyn gwanwyn 2002.	2002	
Datganiad Rhywogaeth (*Geastrum fornicatum)*				
Hyrwyddo arolygu gan wirfoddolwyr, drwy roi erthyglau mewn llythyrau newyddion yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a'r wasg.				
Datganiad Rhywogaeth y Fadfall Dd@r Gribog ((*Triturus cristatus*)				
Arolygu'r holl byllau islaw 400m o fewn PCBB, yn dechrau yn ardal maes glo Betws/Y Fforest a symud tua'r gorllewin ar hyd Dyffryn Wysg.	PCBB, CCGC			

ATODIAD 4

59 O GAMAU YM MHARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG (Gwelir y rhain wedi eu rhestru ar dudalennau 165-168 yn "Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r DG" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DG ym 1994).

Cam 1 Gweithio'n agos gyda ChCGC ynghylch materion rheoli perthnasol yn ymwneud ag SDdGA yn ardal y Parc Cenedlaethol (APC).

Cam 3 Gweithio mewn cydweithrediad â ChCGC i nodi a gweithredu ACA. Ar hyn o bryd mae'r ymgeiswyr am ACA canlynol wedi eu nodi yn gyfan gwbl neu yn rhannol o fewn APC, tra bo eraill yn rhai nad ydynt eto wedi eu cyhoeddi.

- Dyffryn Wysg
- Dyffryn Gwy
- Llyn Syfaddan
- Cwm Cadlan
- Coedlan Coed y Cerrig
- Safleoedd Ystlumod Wysg
- Coedlannau Cwm Clydach

Cam 5 Gweithredu gweithdrefnau o wirio parhaus a chysylltu â datblygwyr i sicrhau bod yr holl ddatblygiad yn cydymffurfio â deddfwriaeth cadwraeth gyfredol y DG. Bydd archwiliadau ar gyfyngiadau yn cael eu gwella er mwyn cyfrif am gynefinoedd a rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt.
Mae PCBB yn cynorthwyo gyda drafftio arweiniad i Gymru gyfan i awdurdodau cynllunio ynghylch gwarchod bioamrywiaeth.
Gweithio tuag at gynnwys Safleoedd Bywyd Gwyllt yr ail haen yn y CDU ar gyfer ardal y Parc.
Bydd y CDU yn cynnwys polisïau sy'n cadw at y Rheoliadau Cynefinoedd.

Camau 16, 17
Dynodwyd 2 Warchodfa Natur Leol gydag un arall wedi ei hargymell, a pharheir i wneud hynny lle tybir bod hynny'n briodol. Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu cynlluniau cynaladwyedd lleol. Bydd PCBB yn annog cymunedau lleol i gynnwys projectau yn seiliedig ar gynefinoedd a thirlun.

Cam 19 Mae PCBB yn annog a chefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr i ystyried cynnig eu tir i Gynllun Tir Gofal. Bydd mwy o bobl yn cael eu derbyn i'r cynllun hwn yn galluogi PCBB i ystyried sut i ail ddefnyddio ei arian ei hun yn yr arbedion a wneir o gytundebau rheoli a fydd yn dirwyn i ben o ganlyniad i TG.

Cam 21 Hyrwyddo'n frwd a chynghori ffermwyr ynghylch ymgeisio am y Cynllun Cymorth Organig. Bydd PCBB yn cynorthwyo i ddatblygu cynllun pori rhanbarthol (CPRh) o dan ofal Project Anifeiliaid yn Pori Prydain Gyfan (PAP).

Cam 22 Mae'r gwasanaeth ymgynghorol amaethyddol yn cynorthwyo ffermwyr i nodi a mabwysiadu arferion rheoli manteisiol i'r amgylchedd. Mae ar hyn o bryd yn cyflwyno cynllun i gynorthwyo ceisiadau ffermwyr am Gynllun Amaeth-Amgylchedd Tir Gofal, trwy nodi a chyngori yngl~n â gwerth cadwraeth/potensial eu daliad.

Cam 23 Ym mlynyddoedd ariannol 97-98 a 98-99 sicrhaodd fod 6 km o wrychoedd yn cael eu hadnewyddu bob blwyddyn. Ni fyddai'r hydau hyn i gyd wedi denu cyllideb o dan y 'Cynllun Adfer Gwrychoedd' cenedlaethol oherwydd eu bod mewn cyflwr gwael. Cyflawnwyd hyn drwy gynnig 20% o arian ychwanegol at y 30% a gynigiwyd gan Gynllun Grant Ffermydd a Chadwraeth AASG ar gyfer gwaith yn ymwneud â gwrychoedd a waliau.

Cam 24 Disgwylir cynhyrchu Strategaeth Coedlannau Cymru

Camau 25 – 29
Mae Swyddogion Coedlannau'r PC a Choed Cymru yn gweithredu cynlluniau rheoli ac yn

cynghori ynghylch rheoli coedlannau brodorol ar gyfer ymestyn, adfywhau a gwella proffiliau oed y standiau (CGC, Arian Her Bioamrywiaeth).

Cam 33 Bydd CGBLl PCBB yn paratoi ac yn gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwarchod rhywogaethau o bryder o safbwynt cadwraeth lleol ac yn y DG. Byddwn yn cysylltu â'r holl GGBLl cyfagos i sicrhau parhad a chysondeb ymdrech ar draws y rhanbarth.

Bydd Cronfa Datblygu Amgylcheddol PCBB yn annog grwpiau i ystyried datblygu cynllun meithrin planhigion o darddiad lleol er mwyn cyflenwi planhigion a choed a hadau brodorol i Dir Gofal, cynlluniau adfer cynefinoedd yn ogystal â gerddi preifat.

Camau 43 a 44

Darparu dehongli a gwybodaeth mewn canolfannau ar draws yr APC.
Sefydlwyd grwpiau trafod i staff er mwyn caniatáu i holl staff PCBB ddatblygu eu syniadau ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth.
Mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth y Bannau, cyflwyno cynllun o 'Dalu nôl gan Ymwelwyr' i annog cyllido projectau bioamrywiaeth lleol drwy roddion gan dwristiaid. Bydd hyn yn tynnu sylw at werth treftadaeth naturiol i'r economi leol.

Cam 45 PULSE – datblygwyd y Project Deall Cynaladwyedd Lleol drwy Addysg mewn partneriaeth gydag YBG Brycheiniog, Cyngor Sir Powys, Coleg y Drindod, Llandeilo a PhCBB. Mae CCGC wedi cytuno i hyrwyddo'r pecyn adnoddau addysgu hwn i ysgolion cynradd ledled Cymru. Mae'n darparu adnoddau addysgu i dri gr@p cynefin – coedlannau, gwrychoedd a llynnoedd a nentydd.

Cam 50 Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth (GGB) i Bowys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bellach yn ymddiriedolaeth a gyfyngir gan warant. Mae PCBB yn aelod o'r bwrdd ac yn bartner sy'n cyfrannu at sefydlu a gwasanaethu'r ganolfan cofnodion lleol hon.

Atodiad 5
Enghraifft o Gynllun Gweithredu – Sut y gallech ei ddefnyddio

CYNLLUN GWEITHREDU BRITHEG Y GORS
(Eurodryas aurina)
Partner Arweiniol Cyfrifedinol: CCGC

Pa rywogaethau a welir yn eich ardal?

STATWS CYFREDOL

Beth a wyddoch am y rhywogaeth hon?

ors yn rhywogaeth amlwg na el
ddog unrhyw rywogaeth Brydeinig arall
adenydd uchaf yn orengoch gyda smotiau melyn a gwythiennau duon a bariau ar eu traws. Mae gan yr adenydd ôl uchaf res nodweddiadol o smotiau duon ar hyd yr ymyl isaf. Mae o dan yr adenydd yn batrymog gyda melyn p@l, oren a du heb unrhyw arlliw o arian.

Mae Britheg y Gors yn digwydd lle ceir digon o'r planhigion sy'n fwyd iddi, tamaid y cythraul *Succisa pratensis* ar laswelltiroedd llaith, niwtral neu asidig neu ar laswelltiroedd calchaidd sych. Mae'r ieir bach yr haf hyn sydd wedi cyrraedd eu llawn dwf yn hedfan rhwng Mai a Gorffennaf yn dibynnu ar y tywydd. Nid yw'r fenyw yn hedfanwr cryf ac mae'n dodwy ei hwyau yn ago mae'n ymddangos. Dodwyir yr wyau ar ddail ta cythraul ac maent yn deori ar ôl rhyw dair wyth lindys yn heidiog yn ystod yr haf ac yn byw ar gyffredin. Yn y gaeaf ymgiliant i we fwy trwch grewyd yn y llystyfiant tal.

A yw'r rhywogaeth hon yn cael ei heffeithio gan y ffactorau hyn lle rydych chi?

Mae'r rhywogaethau yn bodoli mewn meta-boblogaethau sy'n grwpiau o boblogaethau wedi eu hynysu yn rhannol wedi eu cysylltu gan lwybrau allfudo a mewnfudo. Tuedda'r cytrefi i fod yn fychan sy'n gallu bod mewn perygl o ddiflannu felly mae'n hanfodol fod nifer fawr o gytrefi'n bodoli o fewn meta-boblogaeth i ganiatáu ar gyfer ail gytrefu.

Yn y Parc Cenedlaethol cysylltir y rhywogaeth yn nodweddiadol â chynefin porfa rhos a ganfyddir yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin ac ar hyd ymyl deheuol y Parc ym Morgannwg (gweler Cynllun Gweithredu porfa rhos). Cofnodwyd 16 o gytrefi yn y Parc Cenedlaethol ers 1990 ond mae rhai o'r rhain yn fychan iawn yn cefnogi dim ond ychydig o unigolion. Credir bod y rhywogaeth wedi mynd i ddifancoll ar bump o'r rhain ac ni chafodd ei chofnodi ar safle arall ers 1993. Mae'n ymddangos mai'r ardal bwysicaf ar gyfer y rhywogaeth yw'r ardal rhwng Penderyn a Hirwaun lle nodwyd cytref fawr (80+ o weoedd) ym 1999. Mae'n ymddangos fod y gytref hon yn gysylltiedig â safle yn union o fewn y Parc Cenedlaethol yn Hirwaun o fewn Awdurdod Unedol Rhondda Cynon Taf. Credir bod y cytrefi yn rhan o'r un meta-boblogaeth ac mae'n bwysig fod Gr@p Llywio PCBB yn gweithio gyda RCT i sicrhau rheolaeth ar y boblogaeth gyfan. Mae canolfannau poblogaeth potensial eraill sydd angen ymchwiliad pellach yn cynnwys ardal Ystradfellte/Cwm Nedd ac ardal Dderi Hir/Nant y Moel.

Yn y DG mae amrediad y rhywogaeth wedi lleihau o 62% ac mae wedi diflannu o ddwyrain Lloegr a dwyrain yr Alban. Yng Nghymru mae hyd at 160 o gytrefi yn dal mewn bodolaeth ond ystyrir bod tua 70 o'r rhain o dan fygythiad. Yn y DG yn gyffredinol credir bod y rhywogaeth yn dirywio yn ôl rhyw 10% bob degawd. Ni wyddys beth yw cyfradd y gostyngiad yn y Parc Cenedlaethol ond mae o leiaf saith o safleoedd a oedd yn adnabyddus yn flaenorol yn rhai lle na chofnodwyd y rhywogaeth yn ystod yr 1990au.

Amrediad
Rhyngwladol: Anhysbys ond yn dirywio yn yr holl wledydd Ewropeaidd ac wedi diflannu yng Ngwlad Belg.
Cenedlaethol:
Y DG: Cadarnle bwysig i'r rhywogaeth yn Ewrop gyda thua 400 o gytrefi.
Cymru: Tua 160 o gytrefi.
PCBB: 16 o gytrefi wedi eu cofnodi ers 1990. Poblogaeth a allai fod yn bwysig iawn yn ne'r Parc Cenedlaethol, hefyd yn effeithio ar Rondda, Cynon, Taf.

Blaenoriaeth

Rhyngwladol: Uchel: IUCN Red Data List
Cenedlaethol: Uchel; rhywogaeth y rhoddir blaenoriaeth iddi yn y DG
PCBB: Uchel

FFACTORAU CYFREDOL SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH O FEWN PCBB

- Diffyg data yngl~n â dosbarthiad a phwysigrwydd safleoedd yn deillio o ddifrod i'r cynefin a rheolaeth amhriodol.
- Gwelliannau amaethyddol drwy ddraenio, ail-hadu a chwalu gwrtaith.
- Esgeuluso glaswelltiroedd gwlyb sy'n caniatáu i dyfiant dyfu'n uchel ac i brysg ymledu. Mae hyn yn ymddangos fel pe bai oherwydd diffyg stoc addas yn pori fel gwartheg a cheffylau.
- Coedwigaeth a phlannu coedlannau ar laswelltiroedd *Molinia.*
- Datblygiad ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465.
- Pwysau datblygu yn ardal Penderyn/Hirwaun.

GWEITHREDU CYFREDOL O FEWN PCBB

- Mae Hamdden (rhan o D@r Cymru/Welsh Water) wedi cyflawni rheolaeth ar lystyfiant wrth Gronfa Dd@r Wysg i wella ansawdd y cynefin ar gyfer cytref sy'n bodoli'n barod o Fritheg y Gors. Mae oedolion ieir bach yr haf wedi eu cofnodi yn rheolaidd gan Swyddog Coedlannau APC ond mae angen monitro pellach ar oedolion a gweoedd larfau.
- Mae Gwarchod Ieir Bach yr Haf wedi argymell nifer o gamau gweithredu yn y Parc Cenedlaethol a gynhwysir yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Iâr Fach yr Haf yng Nghymru.
- Yn dilyn cyngor gan GCGC gwrthododd APC ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu tai ar safle lle roedd Britheg y Gors yn bresennol ger Penderyn.
- Mae APC wedi rhoi cefnogaeth i Awdurdod Unedol RhCT ynghylch gwarchod safle fagu ar ffin RhCT/APC.
- Mae APC yn rheoli safle Britheg y Gors o dan Gytundeb Rheoli Adran 39. Cofnodwyd Britheg y Gors ar y safle gan Gwarchod Ieir Bach yr Haf ym 1998.
- Cyflawnodd CCGC [illegible] Hirwaun/Penderyn yn ystod 199[illegible] nodi meta-boblogaeth.

Fedrwch chi gyfrannu at yr amcanion hyn?

AMCANION A THARGEDAU'R CYNLLUN GWEITHREDU

- Cwblhau arolwg a mapio poblogaethau Britheg y Gors, nodi canolfannau poblogaeth a thueddiadau erbyn 2004.
- Nodi cynefin addas ar gyfer ehangu poblogaethau Britheg y Gors.

- Datblygu arfer gorau ar gyfer rheoli glaswelltiroedd *Molinia* sy'n cefnogi poblogaeth o Fritheg y Gors.

CAMAU GWEITHREDU ARFAETHEDIG GYDA THARGEDAU AR GYFER ASIANTAETHAU ALLWEDDOL
Ar gyfer yr holl gamau gweithredu a'r targedau yn y Cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol hwn bydd cost o ran staff y gellir ei amcangyfrif yn ôl rhyw £20 yr awr + TAW, neu £150 y dydd ar gyfer staff taledig a £50 y dydd am amser gwirfoddolwyr, heb gynnwys TAW. Fel arall, lle darperir costau, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ychwanegol at gyfyngir yn bennaf i eitemau cyfalaf yn hytrach na chostau refeniw.

A oes camau gweithredu a thargedau yma (neu yn y camau gweithredu cyffredinol a'r targedau a restrwyd yn y gyfrol hon) y gallech gyfrannu tuag atynt yn lleol?

Gweithredu arfaethedig	**Gweithredu**	**Partner arweiniol**		
Polisi a Deddfwriaeth				
Nodi cytref fagu Penderyn fel SDdGA	CCGC	CCGC	Cwblhau'r hysbysiad yn 2000	
Adolygu'r SDdGA presennol i sicrhau y rhoddir gwarchodaeth ddigonol i ddiddordeb Britheg y Gors. Diwygio ffiniau'r safleoedd lle bo hynny'n angenrheidiol.	CCGC.	CCGC.	Cwblhau erbyn y flwyddyn 2010	
Rheoli Safleoedd, diogelu a chaffael tir				
Parhau i reoli safle Cronfa Dd@r Wysg ar gyfer Britheg y Gors	DC/WW, PCBB, MC, CCGC, Gwarchod Ieir Bach yr Haf.	DC/WW	Monitro poblogaeth yr oedolion a gweoedd larfau yn 2000 a 2001. Adolygu rheolaeth y safle yng ngoleuni canlyniadau.	
Yr holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt i sicrhau bod rheolaeth ar eu safleoedd eu hunain lle mae'r rhywogaeth hon yn bresennol yn cyd-fynd ag arfer gorau ar gyfer ei warchod.	YBG, CCGC, PCBB, CC	YBG, CCGC, PCBB, CC	Yn parhau	
Ymgynghorol				
Datblygu arfer gorau ar gyfer rheoli cynefin lle ceir Britheg y Gors, i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol a thirfeddianwyr preifat.	Gwarchod Ieir Bach yr Haf..	Gwarchod Ieir Bach yr Haf.	Arfer gorau ar gael i'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt erbyn 2004.	
Ymchwil yn y dyfodol a monitro				
Cyflwyno cyfrifiadau blynyddol o weoedd larfau ar yr holl safleoedd adnabyddus.	PCBB, CCGC, YBG	PCBB, CCGC, YBG	Sefydlu cyfrifiadau blynyddol o weoedd ar yr holl safleoedd y gwyddys amdanynt ar hyn o bryd erbyn Haf 2002 ac ar ôl hynny yn ystod yr haf yn union ar ôl cofnodi safleoedd newydd.	